

Papur Pwnc

**Diwygiedig Cynllun**  
**2018-2033 Datblygu**  
**Lleol**

Rhagfyr 2018

Dewisiadau Gofodol

## Cynnwys

- 1 Rhagarweiniad**
- 2 Diben y Papur Hwn**
- 3 Profion Cadernid a Chanllawiau Cenedlaethol**
- 4 Cyd-destun Polisi**
- 5 Cymeriad y Sir**
- 6 Y Sail Dystiolaeth**
- 7 Ymgysylltu**
- 8 Ystyriaethau ac Ysgogwyr**
- 9 Dewisiadau Gofodol**
- 10 Yr Opsiwn a Ffefrir**

### Tablau

Tabl 1 Meini Prawf yr Arfarniad Cynaliadwyedd

Tabl 2: Dewis 1 – Dewis y CDLI Presennol

Tabl 3: Crynodeb Asesiad Arfarniad Cynaliadwyedd o Dewis 1

Tabl 4: Dewis 2 - Dewis Seilwaith a Rhwydwaith Trafnidiaeth

Tabl 5: Crynodeb Asesiad Arfarniad Cynaliadwyedd o Dewis 2

Tabl 6: Dewis 3 Y Dewis Gwasgaru

Table 7: Summary of the SA Assessment of Option 3

Table 8: Option 4 - Community Led Option

Table 9: Summary of the SA Assessment of Option 4

Table 10: Option 5 - Swansea Bay City Region Influence Option

Table 11: Summary of the SA Assessment of Option 5

Table 12: Option 6 - Market Led Option

Table 13: Summary of the SA Assessment of Option 6

## 1. Rhagarweiniad

1.1 Mae'r papur hwn yn nodi'r dewisiadau gofodol a ddatblygwyd ar gyfer y Cynllun Datblygu Lleol (CDLI) Diwygiedig 2018-2033. Mae'r dewisiadau yn pennu'r strategaethau cysyniadol y bwriedir iddynt arwain y drafodaeth ac i gynorthwyo gyda'r gwaith o nodi fframwaith gofodol strategol addas y CDLI. Mae'r gwaith o ystyried y dewisiadau strategol yn rhan bwysig o baratoi'r CDLI, a fydd yn arwain cyfeiriad cyffredinol y twf dros gyfnod y Cynllun.

1.2 Mae'r papur hwn yn cyflwyno chwe Opsiwn Gofodol Strategol posibl ar gyfer derbyn y dosbarthiad twf tai a ragwelir dros gyfnod y CDLI Diwygiedig. Dylid nodi bod yr wybodaeth am yr opsiynau o ran twf ar gyfer Sir Gaerfyrddin a'r asesiad o'r opsiynau hynny wedi'u nodi ar wahân yn y Papur Pwnc Amcanestyniadau Poblogaeth ac Aelwydydd.

1.3 Bydd angen i bob dewis gofodol roi sylw i ddeddfwriaeth, polisi cynllunio cenedlaethol, a strategaethau lleol a rhanbarthol. Ymhellach, rhaid i'r Cynllun roi ystyriaeth i'r nodweddion, yr asedau a'r materion penodol sydd yn gyffredin yn Sir Gaerfyrddin a ffurfio cynllun datblygu sy'n hyrwyddo ac yn tywys datblygiadau yn y ffordd orau ar gyfer Sir Gaerfyrddin.

## 2. Diben y Papur hwn

2.1 Mae'r papur hwn yn ceisio darparu gwybodaeth gefndir am yr Opsiynau Gofodol strategol a gynigir ar gyfer y CDLI Diwygiedig. Mae'n nodi cwmpas y priod opsiynau gan adeiladau ar yr amryw drafodaethau a gynhaliwyd a'r ymgysylltu a fu hyd yma. Mae hefyd yn nodi'r cyd-destun cyffredinol ar gyfer y Sir a rhai o'r ystyriaethau sylfaenol yn y broses dethol a mireinio yn ogystal â'u priod effeithiau.

2.2 Trwy ystyried opsiynau a'u pennu'n derfynol, bwriedir i'r papur hwn wneud y canlynol:

1. Ystyried eu priod effeithiau;
2. Datblygu ar y gwaith a wnaed yn barod;
3. Goleuo'r ymgysylltu a chyfranogi cyn-adneuo sy'n digwydd ar hyn o bryd;
4. Goleuo'r broses o baratoi'r strategaeth a ffefrir a chymau dilynol y gwaith o baratoi'r cynllun; a
5. Bod yn rhan o'r trywydd tystiolaeth yn yr archwiliad annibynnol.

## 3. Profion Cadernid a Chanllawiau Cenedlaethol

3.1 Mae canllawiau Llywodraeth Cymru i Awdurdodau Cynllunio Lleol ynghylch datblygu'r strategaeth ofodol ar gyfer y CDLIau yn nodi y dylai fod yn ddigon cadarn a hyblyg i dderbyn amrywiadau yn y gyfradd ddatblygu. Dylai pob opsiwn a ddewisir i gael ei ystyried fod yn realistig ac yn seiliedig ar ddealltwriaeth gref am ardal y Cynllun hefyd. Mae'r Papur hwn felly'n cyfeirio at yr wybodaeth a gafwyd, a materion perthnasol a adnabuwyd, trwy ymgysylltu yn ystod y broses o baratoi'r CDLI hyd yn hyn, a nodir yn y Papur Materion, Gweledigaeth ac Amcanion. Ar ben hynny, mae'n awgrymu ystyriaethau a chyfyngiadau eraill a ddylai ddylanwadu ar ystyried a dewis opsiynau, y caiff nifer ohonynt eu nodi ac yr ymhelaethir arnynt isod.

3.2 Mae'r Llawlyfr ar Gynlluniau Datblygu Lleol (2il Argraffiad) yn rhoi arweiniad ynghylch asesu'r opsiynau a thrwy wneud hynny, rhagfynegi effeithiau pob opsiwn. Mae'n rhoi arweiniad pellach ynghylch gwerthuso'r effeithiau a ragwelir.

3.3 Dylid nodi bod creu dewisiadau yn un o ofynion pwysig cyfarwydddeb yr Asesiad Amgylcheddol Strategol. Bydd y dewisiadau strategol yn cael eu hasesu yn erbyn yr Arfarniad Cynaliadwyedd/Asesiad Amgylcheddol Strategol o fewn Adroddiad Cychwynnol yr Arfarniad Cynaliadwyedd - Asesiad Amgylcheddol Strategol a bydd hyn yn ffurfio rhan bwysig yn y broses o ddethol y dewis strategol mwyaf addas ar gyfer Sir Gaerfyrddin.

3.4 Mae Paragraff 8.2.1.2 yn Llawlyfr Llywodraeth Cymru ar Gynlluniau Datblygu Lleol – Rhifyn 2 Awst 2015 yn nodi'r profion cadernid. Mae'r elfennau sy'n arbennig o berthnasol i ffurfio, ystyried a gwerthuso Opsiynau Strategol fel a ganlyn:

**Prawf 1: A yw'r cynllun yn cydweddu?** (h.y. a yw'n amlwg bod y CDLI yn cyd-fynd â chynlluniau eraill?)

Ystyrir bod pob mater a godir dan yr is-bennawd hwn yn y Llawlyfr ar Gynlluniau Datblygu Lleol yn berthnasol. Wrth ystyried yr Opsiynau Strategol, ystyrir ei bod yn ofynnol iddynt gyd-fynd â'r Nodau Llesiant a ddisgrifir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn ogystal â rhoi ystyriaeth i Gynllun Llesiant y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ar gyfer Sir Gaerfyrddin. Hefyd, bydd angen iddynt roi ystyriaeth i bolisi cenedlaethol a bod yn gyson â chynlluniau<sup>1</sup>, strategaethau a rhaglenni cyfleustodau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol.

**Prawf 2: A yw'n cynllun yn briodol?** (h.y. a yw'r cynllun yn briodol i'r ardal yng ngoleuni'r dystiolaeth?)

Wrth ystyried yr Opsiynau Strategol, ystyrir mai'r cwestiynau sy'n arbennig o berthnasol yw ystyried a yw'r opsiynau'n benodol yn lleol ac yn ymddrin â'r materion allweddol. Hefyd, trwy gydol y broses o'u hystyried, ond yn arbennig trwy'r Adroddiad Cychwynnol ar yr Asesiad Amgylcheddol Strategol – Arfarniad Cynaliadwyedd, mae angen ystyried a yw'r opsiynau'n ceisio diwallu anghenion asesedig ac yn cyfrannu at ddatblygu cynaliadwy. Fel rhan o'r broses o werthuso'r Opsiynau bydd hefyd yn angenrheidiol sicrhau bod y dewisiadau eraill 'go iawn' yn cael eu hystyried yn briodol, a fyddai yn yr achos hwn yn cynnwys ystyriaeth lawn a gwirioneddol i bob opsiwn.

**Prawf 3: A fydd y cynllun yn cyflawni** (h.y. a yw'n debygol o fod yn effeithiol?)

Y cwestiynau mwyaf perthnasol i'w hystyried o ran gallu cyflawni'r Opsiynau Strategol yw a fydd yr opsiynau'n effeithiol ac a ellir eu rhoi ar waith. Bydd angen i ddosbarthiad y twf allu cael ei gyflawni'n realistig er mwyn cyflawni hyn. Ar ben hynny, bydd argaeledd seilwaith a chyllid yn ystyriaeth allweddol arall a gallai argaeledd y rhain fod yn ffactor dylanwadu pwysig yn nosbarthiad daearyddol twf yn y Sir.


---

<sup>1</sup> Paragraff 2.1.8 Polisi Cynllunio Cymru (argraffiad 9) Tachwedd 2016

## 4. Cyd-destun Polisi

### Polisi Cenedlaethol a Deddfwriaeth

4.1 Nod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) yw gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Pennai 7 nod llesiant, a sefydlodd Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus (BGCau) ar gyfer pob ardal awdurdod lleol yng Nghymru. Mae'n rhaid i bob BGC wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol ei ardal drwy weithio i gyflawni'r nodau llesiant.



*7 nod llesiant cenedlaethol*

4.2 Mae Deddf Cynllunio (Cymru) 2015 yn ceisio atgyfnerthu'r dull o weithredu a arweinir gan gynllun, gan sicrhau bod y CDLI yn parhau i fod â rhan hanfodol yn hynny. Y mae'n ategu eto'r system gyfredol a arweinir gan gynllun drwy gyflwyno sail gyfreithiol ar gyfer paratoi Fframwaith Datblygu Cenedlaethol (FfDC) ar raddfa Cymru, a Chynlluniau Datblygu Strategol (CDSau) ar raddfa ranbarthol i ymdrin â phroblemau trawsffiniol fel tai, cyflogaeth, gwastraff a thrafnidiaeth.

4.3 Daeth ymgynghoriad ar y Materion, yr Opsiynau a'r Opsiwn a Ffafir ar gyfer y FfDC i ben ar 23 Gorffennaf 2018. Bydd goblygiadau posib i'r FfDC ar raddfa leol, yn arbennig wrth benderfynu a fydd blaenoriaethau rhanbarthol wedi'u pennu ar raddfa genedlaethol yn hytrach na'u bod yn cael eu pennu o'r rhanbarth i fyny, ar sail gwaith a gyflawnir gan y rhanbarthau hynny. Ceir heriau hefyd o ran blaenoriaethu amcanion a chysoni hynny â'r hyn sydd ei angen mewn ardal, yn hytrach na gorfodi ymagwedd gyffredinol ar raddfa genedlaethol. Cyflwynir ystod o opsiynau, ac mae angen egluro'r berthynas rhwng sbardunau rhanbarthol (ee, CDSau) a'r FfDC.

4.4 Ym Mholisi Cynllunio Cymru (PCC - argraffiad 9 - Tachwedd 2016), nodir y polisi cynllunio defnydd tir ar gyfer Cymru, a dylid ei ystyried y polisi hwnnw wrth baratoi cynlluniau datblygu. Yn ychwanegol at y canllawiau hyn, ceir cyfres o Nodiadau Cyngor Technegol (NCTau) a Nodiadau Cyngor Technegol Mwynhau (NCTMau).

4.5 Daeth yr ymgynghoriad ar PCC (argraffiad 10) i ben ar 18 Mai 2018. Cynigir y dylid diwygio PCC yn sgil y 7 nos llesiant. Mae'n debygol y ceir goblygiadau cysylltiedig i'r CDLI Diwygiedig, ac mae angen cydnabod y goblygiadau hynny fel ystyriaethau. Mae'r rhain yn cynnwys rôl CDSau o ran eu dylanwad strategol ar CDLIau, ee - pennu trothwyon ar gyfer dyrannu. Ar lefel strategol, mae pynciau polisi cynllunio traddodiadol wedi'u clystyru o gwmpas pedair thema unigryw - Creu lleoedd, Lleoedd Actif a Chymdeithasol, Lleoedd Cynhyrchiol a Mentrus, & Lleoedd Unigryw a Naturiol. Nodwyd prif amcan polisi i gefnogi creu lleoedd. Cefnogir hyn gan bum Egwyddor Cynllunio allweddol sydd yn angenrheidiol er mwyn sicrhau Lleoedd Cynaliadwy:

- Y Datblygiad Cywir yn y Lle Cywir;
- Y Defnydd Gorau o Adnoddau;
- Amgylcheddau Hygyrch ac Iach;
- Chreu a Chynnal Cymunedau; a
- Diogelu'r Amgylchedd

4.6 Bydd y ddealltwriaeth ynghylch unrhyw effaith yn sgil Brexit yn datblygu wrth i'r broses o baratoi'r CDLI Diwygiedig fynd rhagddi.

### Polisi Rhanbarthol

4.7 Mae Sir Gaerfyrddin yn rhan o Ranbarth Dinas Bae Abertawe sydd hefyd yn cynnwys ardaloedd Awdurdod Lleol Sir Benfro, Dinas a Sir Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot. Gan ddod â busnesau, llywodraeth leol ac amrywiaeth o bartneriaid eraill ynghyd, mae Rhanbarth y Ddinas wedi cyhoeddi Strategaeth Adfywio Economaidd Rhanbarth Dinas Bae Abertawe 2013-2030. Bydd rôl y CDLI Diwygiedig o ran llywio a chefnogi uchelgeisiau Rhanbarth y Ddinas yn hollbwysig er llwyddiant y strategaeth honno.

4.8 Cafodd Bargaen Ddinesig Bae Abertawe, gwerth £1.3 biliwn, ei llofnodi ym mis Mawrth 2017. Disgwylir i'r Fargaen Ddinesig greu gwerth ychwanegol gros parhaol o £1.8 biliwn a chynhyrchu bron 10,000 o swyddi newydd dros y 15 mlynedd nesaf. Cyfeirir at gyfanswm o 11 o brosiectau graddfa fawr. Cynigir dau brosiect penodol yn Sir Gaerfyrddin: Honnir mai'r Pentref Llesiant a Gwyddor Bywyd 'o safon fyd-eang' a gynigir ar hyd arfordir Llanelli fydd y prosiect adfywio mwyaf erioed yn Ne Orllewin Cymru, ac mae'n anelu i wella iechyd a llesiant pobl ar draws y rhanbarth; a mae prosiect ar gyfer y diwydiannau creadigol yn Yr Egin yng Nghaerfyrddin yn ceisio manteisio ar gynigion seilwaith newydd Arfordir y Rhynggrwyd. Honnir y ceir newid mawr a chadarnhaol i economi creadigol a digidol Cymru yn sgil Yr Egin.

4.9 Rhagwelir y bydd y CDSau yn ystyried elfennau strategol penodol fel tai, cyflogaeth, trafndiaeth, darpariaeth i Sipsiwn a Theithwyr, mwynau a gwastraff. Yn hyn o beth, bydd CDS yn galluogi ystyried a chynllunio ar gyfer materion 'sydd yn fwy na materion lleol' mewn cyd-destun strategol.

### Polisi Lleol

4.10 Cymeradwywyd Cynllun Llesiant Sir Gaerfyrddin ar 2 Mai 2018. Mae'r Cynllun hwn yn amlinellu sut y bydd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn gweithio mewn partneriaeth i ymdrin â rhai o'r materion allweddol sy'n amharu ar lesiant dinasyddion a chymunedau Sir Gaerfyrddin. Cyfeirir at adran Ciplwg ar Sir Gâr sy'n nodi'r ystyriaethau o ran Demograffeg, yr Economi, Iechyd a Llesiant, yr Amgylchedd a Diwylliant. Dyma'r pedwar amcan llesiant:

- **Arferion Iach** - Mae gan bobl ansawdd bywyd da, ac maent yn gwneud dewisiadau iach ynglŷn â'u bywydau a'u hamgylchedd.
- **Ymyrraeth Gynnar** - Sicrhau bod pobl yn cael y cymorth iawn ar yr adeg iawn; pan fydd ei angen arnynt
- **Cysylltiadau Cryf** - Pobl, lleoedd a sefydliadau y mae cysylltiad cryf rhyngddynt, sy'n gallu addasu i newid
- **Pobl a Lleoedd Ffyniannus** - Gwneud y gorau o gyfleoedd i bobl a lleoedd mewn rhannau trefol a gwledig o'n sir fel ei gilydd.

4.11 Nid yw'n ymddangos fel pe bai'r Cynllun Llesiant yn cyflwyno gweledigaeth glir, y gellid ei defnyddio ar gyfer y CDLI Diwygiedig. Fodd bynnag, dylid nodi'n arbennig fod gan y Cyngor 14 o amcanion llesiant (a osodwyd yn 2017-18) ac sydd wedi'u cynnwys yn Atodiad 1 y Cynllun Llesiant. Dyma nhw:

1. Helpu i roi'r dechrau gorau mewn bywyd i bob plentyn a gwella eu profiadau yn gynnar mewn bywyd
2. Helpu plant i ddilyn ffyrdd iach o fyw
3. Parhau i wella cyrhaeddiad pob dysgwyr
4. Lleihau nifer yr oedolion ifanc nad ydynt mewn Addysg, Cyflogaeth na Hyfforddiant
5. Trechu tlodi drwy wneud popeth o fewn ein gallu i'w atal, gan helpu pobl i gael gwaith a gwella bywydau'r rheiny sy'n byw mewn tlodi
6. Creu mwy o swyddi a thwf ledled y sir
7. Cynyddu faint o dai rhent a thai fforddiadwy sydd ar gael
8. Helpu pobl i fyw bywydau iach (mynd i'r afael ag ymddygiad peryglus a gordewdra)
9. Cefnogi cysylltiadau da â ffrindiau, y teulu a chymunedau mwy diogel
10. Cefnogi'r nifer cynyddol o bobl hŷn er mwyn iddynt gadw'u hurddas a'u hannibyniaeth wrth iddynt heneiddio
11. Ymagwedd ledled y Cyngor tuag at gefnogi Heneiddio'n Dda yn Sir Gaerfyrddin
12. Gofalu am yr amgylchedd nawr ac ar gyfer y dyfodol
13. Gwella seilwaith a chysylltedd y priffyrdd a thrafnidiaeth
14. Hyrwyddo'r iaith Gymraeg a Diwylliant

## 5. Cymeriad y Sir

5.1 Mae Sir Gaerfyrddin yn sir amrywiol lle mae economi a thirwedd amaethyddol yr ardaloedd gwledig yn cyferbynnu â'r ardal drefol a diwydiannol ac ôl-ddiwydiannol yn y ddwyrain. Fodd bynnag, gan mai sir wledig yw hi gan fwyaf, mae'r dwysedd poblogaeth yn isel, sef 78 o bobl i bob cilometr sgwâr, o gymharu â 140 o bobl i bob cilometr sgwâr yng Nghymru gyfan. Mae'r teneurwydd poblogaeth yn fwy amlwg yng nghefn gwlad Sir Gaerfyrddin nag ydyw yn ne a dwyrain y Sir lle mae 65% o'r boblogaeth yn byw ar ryw 35% o'r tir. Mae amrywiaeth y Sir yn ystyriaeth allweddol ar gyfer y Cynllun ac yn elfen sy'n llywio'r gwaith o ddewis y strategaeth orau a'r dosbarthiad twf gorau ar gyfer y Sir

5.2 Mae prif ganolfannau trefol y Sir yn cynnwys Llanelli, Caerfyrddin ac ardal Rhydaman / Cross Hands. Ceir nifer o aneddiadau o amrywiol feintiau, sy'n aml yn gwneud cyfraniadau nodedig at anghenion a gofynion eu cymuned a'r cyffiniau. Mae nifer o bentrefi ac aneddiadau gwledig yn hunangynhaliol o safbwynt cyfleusterau a gwasanaethau; fodd bynnag, ceir aneddiadau eraill llai o faint sydd heb wasanaethau a chyfleusterau.

5.3 Mae'r rhan fwyaf o'r ddarpariaeth tai a swyddi bresennol i'w chael yng nghanolfannau trefol sefydledig Llanelli, Caerfyrddin a grŵp aneddiadau Rhydaman / Cross Hands. Mae'r aneddiadau hyn yn dangos nodweddion cynaliadwyedd a hygyrchedd, yn enwedig o safbwynt llwybrau trafndiaeth pwysig (gan gynnwys ffyrdd/rheilffyrdd) yn ogystal â gwasanaethau (e.e. gofal iechyd, adwerthu ac addysg). Dyma'r ardaloedd lle mae'r rhan fwyaf o boblogaeth y Sir yn byw ac yn y CDLI presennol yr ardaloedd hyn sydd wedi gweld y rhan fwyaf o'r twf. Fodd bynnag, caiff yr ardaloedd trefol hyn eu cynnal gan ystod o aneddiadau llai sy'n amrywio mewn maint ac o safbwynt eu rôl a'u swyddogaeth. Mae pob dewis gofodol a amlinellir isod yn rhoi ystyriaeth i'r dull o bennu cyfeiriad twf a datblygiad drwy strategaeth y CDLI.

## 6. Y Sail Dystiolaeth

6.1 Yn unol â gofynion statudol mae'r Cyngor wedi llunio a chyhoeddi 3 Adroddiad Monitro Blynyddol (AMBau) ar y CDLI mabwysiedig hyd yma. Mae'r Adroddiad Adolygu (a gefnogwyd gan y Cyngor llawn ym mis Ionawr 2018) yn nodi amryw o'r prif resymau dros yr adolygiad, a thros gasglu bod angen 'diwygio'r Cynllun yn llawn'.

6.2 Mae mynd ati'n barhaus i adolygu data, ystadegau a gwybodaeth yn bwysig i'r CDLI a pholisïau dilynol a ddatblygir. Mae gwaith wedi dechrau ar gasglu a choladu data a bydd y canfyddiadau'n cael eu cyhoeddi trwy gydol y broses o baratoi'r CDLI Diwygiedig. Efen sy'n arbennig o berthnasol ar y cam cynnar hwn yn y broses o baratoi'r CDLI yw cyhoeddi'r Papur Materion, Gweledigaeth ac Amcanion – sy'n nodi'r ystyriaethau allweddol i Sir Gaerfyrddin – a Phapur Pwnc Dosbarthiad y Boblogaeth sy'n nodi'r gofynion rhagamcanol o ran twf ar gyfer Sir Gaerfyrddin.

6.3 Mae'r Papur Pwnc Materion, Gweledigaeth ac Amcanion yn nodi'r materion allweddol a'r amcanion ar gyfer y CDLI. Mae'r rhain yn ffactorau goleuo pwysig o ran adnabod opsiynau gofodol priodol ac i gynorthwyo gyda'r broses o'u hasesu a'u gwerthuso. Caiff y rhain eu nodi isod er mwyn cyfeirio atynt; fodd bynnag, ceir rhagor o wybodaeth am y broses adnabod yn y Papur Pwnc ei hun. Mae'r 33 mater crynodedig ddrafft fel y ganlyn:

### **Sir Gaerfyrddin Ffyniannus**

1 Bargen Ddinesig Bae Abertawe sydd werth £1.3 biliwn, gyda phrosiectau wedi'u nodi yn Llanelli a Chaerfyrddin.

2 Amrywiol raddau o fywiogrwydd yn ein canolfannau trefi adwerthu

3 Mae angen twf priodol mewn ardaloedd gwledig (gan gynnwys cyfleoedd am waith)

4 Economi ymwelwyr fywiog sydd â'r potensial i dyfu.

### **Sir Gaerfyrddin gydnerth**

5 Peryglon llifogydd a'r heriau a gyfyd yn sgil newydd yn yr hinsawdd

6 Dynodiadau bioamrywiaeth yn amrywio o lefel ryngwladol i lefel leol.

7 Ôl troed ecolegol sydd ar hyn o bryd yn fwy na'r lefelau cynaliadwy.

8 Nodweddion tirwedd neu drefwedd cyfoethog.

### **Sir Gaerfyrddin iachach**

9 Poblogaeth sy'n heneiddio.

10 Adroddwyd bod 60% o oedolion dros bwysau neu'n ordew.

11 Mae bywyd cymunedol, addysg a'r gwasanaethau cyhoeddus yn dynodi llesiant mewn ardaloedd gwledig.

12 Mae harddwch, tawelwch, mannau gwyrdd agored ac awyr iach hefyd yn cyfrannu at hapusrwydd mewn ardaloedd gwledig.

13 Ardaloedd Rheoli Ansawdd Aer yng Nghaerfyrddin, Llanelli a Llandeilo.

14 "Ein Newid Mawr yn y GIG" ac unrhyw oblygiadau.



### **Sir Gaerfyrddin fwy cyfartal**

15 Amddifadedd gwledig a threfol.

16 Mae mwy nag 1 ym mhob 3 o aelwydydd yn byw mewn tlodi.

17 Targed y Cyngor o ddarparu 1,000 o dai fforddiadwy.

### **Sir Gaerfyrddin o gymunedau cydlynus**

18 Prinder tai newydd yn cael eu hadeiladu mewn rhai Canolfannau Gwasanaeth a Chanolfannau Gwasanaethau Lleol.

19 Prinder cyflenwad pum mlynedd o dir ar gyfer tai a'r angen am gymysgedd o dai.

20 Mae newidiadau yn yr amcanestyniadau poblogaeth ac aelwydydd yn dynodi y bydd nifer y tai y bydd eu hangen hyd at 2033 gryn dipyn yn llai.

21 Safleoedd tai nad ydynt yn cael eu datblygu a'u gwireddu.

22 Sir o natur wledig yn bennaf lle mae 60% o'r boblogaeth yn byw mewn ardaloedd gwledig.

23 Sicrhau bod y seilwaith yn gallu cynnal datblygiadau, gan gynnwys priffyrdd.

24 Yr angen i hyrwyddo a defnyddio mathau eraill o drafnidiaeth.

25 Diffyg cyfleoedd gwaith, band eang a gwasanaethau cyhoeddus mewn ardaloedd gwledig.

26 Angen gwerthfawrogi'r ymdeimlad o le - sir o gyferbyniadau.

### **Sir Gaerfyrddin â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu**

27 Adeiladau segur ledled y Sir.

28 Angen mesur effaith datblygu ar y Gymraeg.

29 Angen tai fforddiadwy yn ein cymunedau er mwyn cadw teuluoedd ifanc.

30 Safleoedd archaeolegol pwysig a nodweddion hanesyddol.

31 Y nifer uchaf o siaradwyr Cymraeg yng Nghymru

### **Sir Gaerfyrddin sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang**

32 Ystyriaethau cenedlaethol a rhanbarthol datblygol gan gynnwys Brexit, y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol, Cynlluniau Datblygu Strategol ac adolygu Polisi Cynllunio Cymru (rhifyn 10).

33 Angen hyrwyddo effeithlonrwydd ynni mewn datblygiadau arfaethedig a'r rhai sy'n bodoli eisoes.

6.4 Mae amcanion strategol y Cynllun Datblygu Lleol diwygiedig isod.

### **Arferion Iach – Mae gan bobl ansawdd bywyd da, a'u bod yn gwneud dewisiadau iachus am eu bywydau a'u hamgylchedd.**

- AS1 Sicrhau bod yr amgylchedd naturiol, gan gynnwys cynefinoedd a rhywogaethau, yn cael ei ddiogelu a'i wella.

- AS2 Cynorthwyo gyda'r gwaith o ehangu a hyrwyddo cyfleoedd llesiant trwy fynediad at gyfleusterau cymunedol a hamdden yn ogystal â'r cefn gwlad.
- AS5 Diogelu a gwella'r amgylchedd adeiledig a hanesyddol a hyrwyddo pobl i aildefnyddio adeiladau segur mewn modd priodol.

### **Ymyrraeth Gynnar – Sicrhau bod pobl yn derbyn y cymorth cywir ar yr adeg gywir, pan fydd ei angen arnynt**

- AS3 Cynorthwyo wrth ehangu a hyrwyddo cyfleoedd addysg a hyfforddi sgiliau ar gyfer pawb.
- AS4 Sicrhau bod egwyddorion cyfle cyfartal a chynhwysiant cymdeithasol yn cael eu cynnal trwy hyrwyddo mynediad at gymysgedd amrywiol o wasanaethau cyhoeddus, gofal iechyd, siopau, cyfleusterau hamdden a chyfleoedd gwaith o ansawdd uchel, yn ogystal â chanol trefi bywiog.

### **Cysylltiadau Cryf – Pobl, lleoedd a sefydliadau wedi'u cysylltu'n gryf sy'n gallu addasu i newid**

- AS6 Sicrhau bod egwyddorion cynaliadwyedd gofodol yn cael eu cynnal trwy gyfeirio datblygiadau at leoliadau cynaliadwy sydd â mynediad at wasanaethau a chyfleusterau a, lle bynnag y bo modd, annog aildefnyddio tir sydd wedi cael ei ddatblygu yn y gorffennol.
- AS7 Gwneud cyfraniad sylweddol tuag at fynd i'r afael ag achos y newid yn yr hinsawdd ac addasu i'w effaith, gan gynnwys hyrwyddo defnydd effeithlon a diogelu adnoddau.
- AS8 Cyfrannu at y gwaith o ddarparu system drafnidiaeth hygyrch, integredig a chynaliadwy, gan gynnwys cysylltiadau â dulliau trafndiaeth amgen.

### **Pobl a Llefydd Llewyrchus – Mwyhau'r cyfleoedd i bobl a llefydd yn rhannau trefol a gwledig ein sir**

- AS9 Diogelu a gwella cymeriad amrywiol, gwahanolrwydd, diogelwch a bywiogrwydd cymunedau'r sir trwy hyrwyddo dull sy'n seiliedig ar greu lleoedd ac ymdeimlad o le.
- AS10 Darparu cymysgedd priodol o dai o ansawdd uchel ledled y sir ar sail egwyddorion datblygu cymdeithasol-economaidd cynaliadwy a chyfle cyfartal.
- AS11 Cynorthwyo yn y gwaith o ddiogelu, gwella a hyrwyddo'r Gymraeg a hunaniaeth ddiwylliannol, asedau a gwedd cymdeithasol unigryw'r sir.
- AS12 Annog buddsoddi ac arloesedd mewn ardaloedd gwledig a threfol trwy wneud darpariaeth ddigonol i ddiwallu anghenion cyflogaeth a chyfrannu at gyflawni Bargaen Ddinesig Bae Abertawe ar lefel ranbarthol.
- AS13 Gwneud darpariaeth ar gyfer mentrau sy'n gysylltiedig â thwristiaeth sy'n gynaliadwy ac o ansawdd uchel trwy gydol y flwyddyn.
- AS14 Adlewyrchu'r gofynion sy'n gysylltiedig â'r gwaith o gyflawni datblygiadau newydd, mewn perthynas â seilwaith caled a meddal (gan gynnwys band eang).

## 7. Ymgysylltu

### Ymgysylltu â Chynghorwyr Sir

7.1 Ymgynghorwyd yn helaeth â Chynghorwyr Sir Etholedig drwy amryw o sianelau. Ar adeg ysgrifennu'r ddogfen hon, roedd hynny'n cynnwys saith cyfarfod o'r Panel Cynghori, ynghyd â chyflwyniadau i'r Grwpiau Gwleidyddol.

7.2 Prif bwrpas y Panel Cynghori yw cymryd perchnogaeth wleidyddol ar y CDLI Diwygiedig a sicrhau bod y broses gynllunio yn cael ei rheoli'n unol â'r gweithdrefnau a'r protocolau perthnasol hynny.

7.3 Yng nghyfarfod y Panel Cynghori ar 17 Gorffennaf 2018, cafodd y 6 Opsiwn Gofodol eu cyflwyno i'r Panel ynghyd â'r opsiwn posibl i ddethol opsiwn sy'n gwbl wahanol i'r rhai a gyflwynwyd yn ogystal â'r opsiwn i greu opsiwn gofodol 'hybrid'. Roedd y Panel yn ffafrio Opsiwn 4 – Opsiwn a Arweinir gan y Gymuned ac fe leisiodd bryderon ynghylch Opsiynau 5 a 6 sy'n canolbwyntio'r mwyafrif o'r twf yn rhan ddeheuol y Sir. Hefyd, pwysleisiodd y Panel bwysigrwydd mynd i'r afael â materion trawsffiniol ac anghenion yr ardaloedd gwledig.

### Fforwm Rhanddeiliaid Allweddol

7.4 Mae'r broses o baratoi'r CDLI Diwygiedig yn annog ystod eang o sefydliadau a grwpiau i gydweithio â'r Cyngor er mwyn helpu i bennu strategaeth fras y cynllun yn fuan iawn yn y cyfnod paratoi. Felly er mai'r Cyngor a'r Awdurdod Cynllunio Lleol (ACLI) sy'n gyfrifol am greu'r cynllun (ac mai'r Panel Cynghori sydd yn ei llywio'n wleidyddol) mae'n hanfodol i'r gwaith o'i baratoi a'i gynnwys adlewyrchu safbwyntiau a dewisiadau'r gymuned ehangach, ac i'r cynllun fod yn seiliedig ar gonsensws.

7.5 Yn ail gyfarfod y Fforwm Rhanddeiliaid Allweddol ar 13 Medi 2018 cafodd y 6 Opsiwn Gofodol eu cyflwyno i'r Panel ynghyd â'r opsiwn posibl i ddethol opsiwn sy'n gwbl wahanol i'r rhai a gyflwynwyd yn ogystal â'r opsiwn i greu opsiwn gofodol 'hybrid'. Ar ôl y cyflwyniad cafwyd gweithdy a oedd yn cynnig y cyfle i'r Fforwm gynnig eu barn ynglŷn â'r opsiynau gofodol gwahanol ac i rannu'r rhain â'r Fforwm cyfan.

7.6 Nododd y Fforwm effeithiau cadarnhaol a negyddol tebygol pob un o'r chwe opsiwn yn eu tyb hwy. Er nad oedd penderfyniad eglur ynglŷn â'r opsiwn yr oedd y Fforwm yn ei ffafrio, roedd yr adborth a ddarparwyd yn fwy cadarnhaol ar y cyfan mewn perthynas ag opsiynau 1 a 4. Er y cydnabuwyd fod elfennau o opsiynau 5 a 6 a oedd yn darparu manteision o ran denu mewnfuddsoddiad roedd pryderon eu bod yn canolbwyntio'n fawr ar ran ddeheuol y Sir. Mae copi o'r Adroddiad ar 2il Gyfarfod y Fforwm Rhanddeiliaid Allweddol sy'n cynnwys adborth y Fforwm ar gael i'w weld ar wefan y Cyngor.

### Y Fforwm Datblygwyr

7.7 Mae ymgysylltu â datblygwyr sy'n gweithredu yn Sir Gaerfyrddin yn allweddol i sicrhau bod y CDLI Diwygiedig yn gallu cael ei gyflawni'n realistig. Fel rhan baratoadau'r CDLI mae fforwm wedi cael eu sefydlu ar gyfer datblygwyr gyda golwg ar bwysu a mesur eu barn ynglŷn â materion allweddol ac i ddylanwadu ar y broses o gynhyrchu Cynllun y gellir ei gyflawni. Mae'r Fforwm yn cynnwys trawstoriad o ddatblygwyr o amrywiaeth o gwmnïau, ag arbenigedd amrywiol ac sy'n gweithredu ar raddfeydd amrywiol.

7.8 Yn ail gyfarfod y Fforwm Datblygwyr ar 20 Medi 2018 cafodd y 6 Opsiwn Gofodol eu cyflwyno i'r Panel ynghyd â'r opsiwn posibl i ddethol opsiwn sy'n gwbl wahanol i'r rhai a gyflwynwyd yn ogystal â'r opsiwn i greu opsiwn gofodol 'hybrid'. Ar y cyfan, roedd yr adborth yn pwysleisio pwysigrwydd opsiwn gofodol a oedd yn ymateb i alw'r farchnad gan hefyd sicrhau bod digon o gyfleoedd gwledig yn ogystal â chyfleoedd ar raddfa fach.

## **8. Ystyriaethau ac Ysgogwyr**

8.1 Mae'r opsiynau gofodol strategol wedi cael eu datblygu mewn ymateb i anghenion Sir Gaerfyrddin a'r heriau y mae'n eu hwynebu. Mae Polisi Cenedlaethol a deddfwriaeth yn ogystal â chynlluniau a strategaethau lleol hefyd yn darparu fframwaith ar gyfer datblygu opsiynau twf a gofodol strategol.

8.2 Gwelir isod rai o'r ffactorau sy'n dylanwadu ar y gwaith o ddewis cyfeiriad strategol ar gyfer y CDLI neu'n cyfrannu ato, gan gynnwys ystyried patrwm anheddiad a dosbarthiad datblygiadau. Felly, mae'r dewisiadau gofodol a amlinellir isod felly cael eu gwerthuso o safbwynt y graddau y maent yn cydymffurfio ag amcanion llesiant y Cyngor a'r prif ystyriaethau a amlinellir isod.

### **Cynaliadwyedd**

8.3 Mae'r pwyslais a roddir ar gynaliadwyedd yn dylanwadu'n sylweddol ar y cyfeiriad a gymerir a'r dewisiadau a wneir wrth ddewis strategaeth briodol a dosbarthiad gofodol twf ar gyfer y CDLI. Mae'r Polisi Cynllunio Cenedlaethol yn rhoi gofynion ar y system cynllunio defnydd tir a'r cynlluniau datblygu er mwyn cyflawni ei rôl o wireddu datblygu cynaliadwy. Yn ogystal, mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn seiliedig ar yr egwyddorion o gynaliadwyedd a chafodd ei chynllunio gyda'r prif nod o hwyluso'r gwaith o ddarparu gwasanaethau cyhoeddus sy'n diwallu anghenion y presennol heb effeithio ar allu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain.

8.4 Mae Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir Gaerfyrddin yn gyfrifol am baratoi Cynllun Llesiant ac mae Cyngor Sir Caerfyrddin, ar y cyd â'r gwaith hwn, wedi paratoi eu hamcanion llesiant. Rhaid paratoi'r CDLI yn unol â'r amcanion hyn a'r nodau llesiant fel y'u nodir yn y deddfwriaeth.

### **Newid yn yr Hinsawdd**

8.5 Mae agenda newid yn yr hinsawdd yn codi nifer o faterion sy'n effeithio ar awdurdodau cynllunio lleol. Mae'r CDLI yn offeryn pwysig wrth fynd i'r afael â'r heriau a gyfyd. Mae'r heriau hyn yn cynnwys mynd i'r afael ag achosion ac effeithiau newid yn yr hinsawdd trwy leihau'r allyriadau CO2 a ragwelir, rhoi ystyriaeth i newidiadau ym mhatrymau'r tywydd a rheoli'r ansicrwydd cyffredinol sy'n gysylltiedig â newid yn yr hinsawdd.

8.6 Mae Llywodraeth Cymru yn ymrwymedig i leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr ac i ymateb mewn modd effeithiol i'r newid sydd eisoes yn digwydd. Mae'r cysylltiadau rhwng newid yn yr hinsawdd a'r agenda cynaliadwyedd (a chynhyrchion rhyngweithio amgylcheddol a'r newidiadau hyn mewn hinsawdd, megis perygl o lifogydd ac erydu arfordirol) wedi'u sefydlu i raddau helaeth, a disgwylir i'r CDLI a'i strategaeth ddangos

dealltwriaeth ac ymwybyddiaeth o ffactorau o'r fath. Mae dewis strategaeth ofodol briodol a'i chyfraniad posibl wrth fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd felly'n ystyriaeth bwysig. Wrth ddethol y dewis gofodol a ffeirir mae angen rhoi sylw priodol i newid yn yr hinsawdd a chynaliadwyedd os yw'r cynllun yn mynd i fod yn un y gellir ei roi ar waith, yn enwedig gyda golwg ar gyfrannu at fodloni amcanion cenedlaethol ac i gyd-fynd â'r nodau llesiant.

### **Yr Amgylchedd Naturiol**

8.7 Mae ansawdd tirweddau ac amgylchedd naturiol y Sir yn cyfrannu'n sylweddol at hunaniaeth y Sir, ei chymeriad a'i nodweddion unigryw, ac mae'n elfen allweddol o ddatblygu cynaliadwy. Mae diogelu a gwella'r amgylchedd naturiol a'n hadnoddau naturiol yn ystyriaeth allweddol ar gyfer Strategaeth y CDLI. Bydd effaith unrhyw ddewis gofodol ar yr amgylchedd naturiol yn cael ei asesu fel rhan o Adroddiad Cychwynnol yr Arfarniad Cynaliadwyedd - Aseiad Amgylcheddol Strategol. Mae'n cynnwys, fel ystyriaeth allweddol, y nod llesiant o gael Cymru gydnherth sy'n cynnal ac yn gwella amgylchedd naturiol bioamrywiol gydag ecosystemau iach gweithredol sy'n cynnal cydnherthedd cymdeithasol, economaidd ac ecolegol ynghyd â'r gallu i addasu i newid (er enghraifft newid yn yr hinsawdd). Mae Deddf Amgylchedd (Cymru) 2016 yn ymestyn y ddyletswydd sydd ar gyff cyhoeddus i gynnal a gwella bioamrywiaeth a chynyddu cryfder ecosystemau.

### **Llunio Poblogaeth ac Aelwydydd**

8.8 Mae gwybodaeth ddemograffig a phatrymau newid poblogaeth yn cynrychioli cydrannau pwysig o gynllunio strategol ac yn tanategu llawer o ddarpariaeth gwasanaethau'r Sir yn ogystal â phennu cyfeiriad buddsoddiad a thwf. Mae angen gwybodaeth am faint y boblogaeth, cyfradd ei thwf, ei dosbarthiad a'i chyfansoddiad yn ôl rhyw, oed a grŵp economaidd-gymdeithasol. Mae amcanestyniadau o boblogaeth y dyfodol felly'n hollbwysig at ddibenion cynlluniau datblygu ac wrth asesu faint o dir sydd angen ei ddarparu ar gyfer tai, gwaith ac at ddefnydd pwysig arall. Mae amcanestyniadau poblogaeth a ffactorau demograffig eraill yn nodi'r gofynion neu'r galwadau ar gyfer twf tai yn y dyfodol. Fodd bynnag, ceir ystyriaeth a thrafodaeth bellach ynghylch gofynion twf ac anghenion tai rhagamcanol Sir Gaerfyrddin yn y Papur Pwnc Amcanestyniadau Poblogaeth ac Aelwydydd.

### **Darparu Tai**

8.9 Mae'r tabl isod yn dangos nifer yr unedau preswyl a gwblhawyd yn ystod cyfnod y CDLI hyd at, a chan gynnwys y flwyddyn 2016/2017. O safbwynt dosbarthiad unedau gorffenedig ar safleoedd mawr, mae rhwng 60% a 80% o'r unedau o fewn yr Ardaloedd Twf. Dengys y tabl bod y gwaith o ddarparu tai wedi bod yn wan yn y Canolfannau Gwasanaeth a'r Canolfannau Gwasanaethau Lleol, gan fod yn gryfach yn y Cymunedau Cynaliadwy. Mae'r gwaith o ddarparu tai a'r tueddiadau yn ffactorau pwysig wrth ystyried strategaeth y CDLI, ac mae'n un ffactor sy'n cyfrannu at adeiladu dealltwriaeth o alw'r farchnad a'r tai y rhagwelir y byddant yn cael eu darparu.

Haen	2006 /2008	2008/ 2009	2009 /2010	2010/ 2011	2011/ 2012	2012/ 2013	2013/ 2014	2014/ 2015	2015/ 2016	2016/ 2017	2017/ 2018	Cyfanswm
Haen 1	304	182	160	356	195	242	303	305	399	320	264	3030
Haen 2	166	30	27	54	14	15	11	62	29	10	5	423
Haen 3	76	24	10	25	17	20	27	30	13	57	56	355
Cymunedau Cynaliadwy	101	27	103	128	50	40	38	32	75	39	81	714
<b>Cyfanswm</b>	<b>647</b>	<b>263</b>	<b>300</b>	<b>563</b>	<b>276</b>	<b>317</b>	<b>379</b>	<b>429</b>	<b>516</b>	<b>426</b>	<b>406</b>	<b>4522</b>

## Adwerthu

8.10 Yn hanesyddol, mae 3 prif ganolfan adwerthu wedi bod yn Sir Gaerfyrddin - Caerfyrddin, Llanelli a Rhydaman - ac adlewyrchir hyn yn hierarchaeth adwerthu'r CDLI presennol a'r statws a roddir iddynt trwy gyfrwng polisiau cynllunio. Darperir arlwy adwerthu bellach trwy ddarpariaeth leol yn aneddiadau llai o faint y Sir, yn bennaf yn y Canolfannau Gwasanaeth gyda pheth siopau cyfleustra yn y Ganolfan Gwasanaethau Lleol.

8.11 Mae'n anochel bod y rôl y mae canolfan adwerthu benodol yn ei chwarae wrth wasanaethu ardal ehangach yn dibynnu ar lefel y ddarpariaeth, ac fel y cyfryw mae hierarchaeth wedi datblygu. Er enghraifft, caiff Caerfyrddin ei chydabod fel tref sydd â dylanwad rhanbarthol. Fodd bynnag, ni ddylid tanbriso'r gwasanaeth a gyfrannir gan unrhyw ardal adwerthu benodol (boed yn ganol tref neu'n siop gyfleustra unigol), gyda ffactorau megis lleoliad daearyddol a'r nwyddau a werthir i gyd yn cyfrannu at ei gwerth perthnasol i'r gymuned leol neu ehangach. Felly, mae hi yr un mor bwysig ystyried y ddarpariaeth adwerthu ranbarthol yn ogystal â'r ddarpariaeth gyfleustra leol sy'n cynnal cymunedau'r Sir ac yn hybu patrwm siopa cynaliadwy.

## Gwaith a'r Economi

8.12 Mae creu cyfleoedd am swyddi yn flaenoriaeth barhaus yn Sir Gaerfyrddin. Un o'r ystyriaethau allweddol ar gyfer Strategaeth y CDLI fydd nid yn unig swm a lleoliad y tir cyflogaeth sydd i'w ddarparu ond hefyd hyblygrwydd, ystod a dewis y safleoedd a ddarperir ac a allai fod ar gael. Bydd angen i strategaeth y Cynllun felly sicrhau fod yna ddigon o hyblygrwydd i ymateb i fuddsoddiad yn Sir Gaerfyrddin ac i ddenu buddsoddiad i'r Sir, ac i ddarparu ar gyfer amrywiol anghenion economaidd, boed ar gyfer mentrau mawr neu fusnesau bach.

8.13 Yn 2016 roedd dros 30% o'r cyfanswm wedi'u cyflogi yn y sector cyhoeddus (e.e. mewn gweinyddiaeth gyhoeddus, addysg, iechyd a gwasanaethau cymdeithasol). Roedd 8,000 o swyddi (11.9% o'r cyfanswm) yn y sector gweithgynhyrchu ac roedd 11,000 (16.4% o'r cyfanswm) wedi'u cyflogi yn y sectorau cyfanwerthu ac adwerthu. Mae hunangyflogaeth hefyd yn gyfran uchel o'r cyfanswm yn Sir Gaerfyrddin – roedd dros 15,200 o bobl wedi'u categoreiddio fel rhai hunangyflogedig yn 2015 ac yn 2016. Mae'r duedd hon tuag at fusnesau bach neu 'micro' yn cael ei hadlewyrchu yn nata NOMIS y Swyddfa Ystadegau Gwladol. Mae'r ffigur yn dangos yn glir bod dros 90% o fusnesau / mentrau sector preifat y sir yn cyflogi 9 neu lai o weithwyr. Mae'r ystadegau a gasglwyd am y mathau o fusnesau a geir yn Sir Gaerfyrddin yn dangos mai 'amaethyddiaeth, coedwigaeth a physgota' sydd flaenaf o hyd a bod 28% o'r holl fusnesau yn rhan o'r categori hwn.

8.14 O safbwynt darpariaeth swyddi'r CDLI presennol, er bod swm sylweddol o dir wedi'i glustnodi at ddibenion cyflogaeth, daw Astudiaeth Cyflogaeth Sectorol Sir Gaerfyrddin i'r casgliad bod y graddau y mabwysiadwyd hyn yn ystod y blynyddoedd diwethaf - ar ffurf caniatâd cynllunio a datblygiadau gwirioneddol - yn golygu y bydd y potensial llawn o greu

swyddi yn cael ei gyfyngu'n ddifrifol oni bai fod yna gyflenwad newydd o dir cyflogaeth ychwanegol yn y CDLI nesaf.

## **Trafnidiaeth**

8.15 Mae'r Sir mewn lleoliad da ar gefnffyrdd yr A40, yr A477 a'r A48. Mae eu cysylltiadau i'r gorllewin yn cysylltu â'r porthladdoedd fferi i Iwerddon, gyda'r M4 yn darparu cyswllt strategol i'r dwyrain. Caiff y cyswllt hwn rhwng y dwyrain a'r gorllewin ei bwysleisio ymhellach gan reilffordd Gorllewin Cymru sy'n ymestyn o Abertawe (a'r rhwydwaith rheilffyrdd ehangach - gan gynnwys Llundain) i Sir Benfro trwy Gaerfyrddin a Llanelli. Tua'r gogledd, mae'r A40 a'r A483 yn arwain i Ganolbarth Cymru, ac mae Rheilffordd Calon Cymru o gymorth yn hyn o beth hefyd. Caiff hyn ei ategu ymhellach gan y llwybrau bysiau niferus a'r cysylltiadau trafndiaeth gyhoeddus ar hyd a lled y Sir.

8.16 Bydd materion priffyrdd a thrafnidiaeth strategol yn elfen bwysig wrth nodi'r strategaeth a bydd yn cael effaith uniongyrchol ar ddsbarthiad twf. Yn hyn o beth bydd argaeledd priffyrdd a thrafnidiaeth yn ystyriaeth allweddol. Yn yr un modd bydd y posibilrwydd bod datblygiadau yn hwyluso ac yn galluogi gwelliannau i'r system drafnidiaeth yn cael ei ystyried wrth i'r ymagwedd strategol dyfu.

## **Hygyrchedd a Seilwaith**

8.17 Mae perthynas datblygiad newydd â'r seilwaith (megis y cyflenwad dŵr, carthffosiaeth, draeniau ac ati) yn ystyriaeth bwysig fel rhan o unrhyw strategaeth ofodol gynaliadwy, ac mae hyn hefyd yn wir am gael dewis o ddulliau trafndiaeth.

8.18 Mae angen adlewyrchu'r amcanion cynaliadwy trosfwaol trwy leihau'r angen am deithio a chydabod goblygiadau newid yn yr hinsawdd (fodd bynnag, rhaid hefyd ystyried hyn yng ngoleuni'r ffaith fod rhannau helaeth o'r Sir o natur wledig ac yn dibynnu ar geir). Trwy reoli lleoliad datblygiadau newydd, gall cynllunio defnydd tir ddylanwadu ar yr angen am ddefnyddio car preifat (ac o bosibl ei leihau), a hwyluso cyfleoedd i ddefnyddio dulliau trafndiaeth eraill gan gynnwys trafndiaeth gyhoeddus, cerdded a beicio.

8.19 Mae'r ffaith fod pwyntiau cyswllt a choridorau trafndiaeth ar gael yn agos yn ystyriaethau pwysig wrth ddatblygu hierarchaeth aneddiadau ar gyfer y CDLI. Mae'n debygol y bydd y seilwaith trafndiaeth gyhoeddus sydd ar gael yn ystyriaeth werthfawr yn y broses o ddewis safleoedd.

## **9. Dewisiadau Gofodol**

9.1 Mae'r bennod hon yn rhoi amlinelliad o Opsiynau Gofodol posibl. Mae'r Opsiynau Gofodol canlynol wedi cael eu cyflwyno i'w hystyried:

- Dewis 1 – Dewis y CDLI Presennol
- Dewis 2 - Dewis Seilwaith a Rhwydwaith Trafnidiaeth
- Dewis 3 - Y Dewis Gwasgaru
- Dewis 4 - Dewis dan Arweiniad y Gymuned
- Dewis 5 - Dewis ar sail Dylanwad Dinas-ranbarth Bae Abertawe

- Dewis 6 - Dewis dan Arweiniad y Farchnad

9.2 Mae'r Papur Pwnc ar Ddosbarthiad y Boblogaeth yn nodi faint o dwf sy'n ofynnol yn Sir Gaerfyrddin ar gyfer cyfnod y CDLI Diwygiedig. Fodd bynnag, mae'r opsiynau gofodol canlynol yn nodi sut y gallai'r twf dynodedig hwnnw gael ei ddsbarthu ledled y Sir. Yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru mae'n bwysig nodi dewisiadau realistig a chyraeddadwy yn unig i ddarparu ar gyfer twf, yn hytrach na rhestru'r holl bosibiliadau.

9.3 Mae'r dewisiadau a nodir yn rhagdybio bod datblygiadau tai heb ddarpariaeth swyddi yn yr un lleoliad eang, ac fel arall, yn llai cynaliadwy ac y dylid eu hosgoi. Yn yr un modd, mae angen i welliannau seilwaith gyd-fynd â datblygiadau newydd, gan gynnwys gwelliannau i rwydweithiau trafniadaeth, cyfleustodau, seilwaith gwyrdd, iechyd, addysg a chyfleusterau cymdeithasol. O ganlyniad, caiff y term 'datblygu' ei ddefnyddio yn y Dewisiadau Gofodol ar gyfer Twf i gyfeirio at y cydbwysedd rhwng tai, gwaith a'r seilwaith ategol.

9.4 Ni chaiff unrhyw un dewis ei ffafrio ar y cam hwn ac mae yna gwmpas a hyblygrwydd o hyd ar gyfer y dewisiadau a fabwysiedir er mwyn rhoi ystyriaeth i ffactorau ychwanegol.

9.5 Mae'r Papur Pwnc ar Ddosbarthiad y Boblogaeth yn nodi faint o dwf sy'n ofynnol yn Sir Gaerfyrddin ar gyfer cyfnod y CDLI Diwygiedig. Fodd bynnag, mae'r opsiynau gofodol canlynol yn nodi sut y gallai'r twf dynodedig hwnnw gael ei ddsbarthu ledled y Sir.

Symbol	Effaith a Ragfyneir	Camau/ymateb a awgrymir
++	Effaith gadarnhaol iawn – byddai testun yr arfarniad yn helpu'n sylweddol i gyflawni'r amcan Cynaliadwyedd.	Ystyried a ellir gwella'r effaith gadarnhaol iawn yn fwy
+	Effaith gadarnhaol – byddai testun yr arfarniad yn helpu i gyflawni'r amcan Cynaliadwyedd.	Ystyried a ellir gwella'r effaith gadarnhaol yn fwy
+/-	Effeithiau cadarnhaol a negyddol – byddai testun yr arfarniad yn helpu rhai elfennau o'r amcan Cynaliadwyedd ond yn llesteirio elfennau eraill.	Ystyried camau lliniaru ar gyfer yr effeithiau negyddol ac ellir gwella'r effeithiau cadarnhaol
-	Effaith negyddol – byddai testun yr arfarniad yn amharu ar yr amcan Cynaliadwyedd.	Ystyried camau lliniaru fel dileu/ailstyried/diwygio y polisi neu'r dyraniad safle; ailstyried y polisi neu'r defnydd arfaethedig.
--	Effaith negyddol iawn – byddai testun yr arfarniad yn amharu'n sylweddol ar yr amcan Cynaliadwyedd.	Dulliau lliniaru sylweddol i leihau difrifoldeb neu effaith; ailstyried y polisi neu'r defnydd arfaethedig
	Bydd effaith ar yr amcan Cynaliadwyedd yn dibynnu ar sut y gweithredir y polisi a'r dyraniad	Awgrymiadau ar gyfer gweithredu
?	Ansicr o'r effaith – angen rhagor o wybodaeth	Ystyried o ble bydd hyn yn dod – gan bwy mae'r wybodaeth? Sut y caiff ei chasglu? Pryd y caiff ei chasglu?

Tabl 1 Meini Prawf yr Arfarniad Cynaliadwyedd



## 9.6 Dewis 1 – Dewis y CDLI Presennol

### Disgrifiad

Defnyddio'r hierarchaeth aneddiadau er mwyn caniatáu ar gyfer dosbarthiad cymesur o ddatblygiadau yn seiliedig ar egwyddorion cynaliadwyedd.


### Mynegiad Gofodol / Aneddiadau a Effeithir

Mae'r opsiwn hwn yn seiliedig ar yr hierarchaeth aneddiadau pedair haen.

### Crynodeb o'r Aseiad

Mae'r dewis hwn yn canolbwyntio twf mewn modd cymesur ar draws hierarchaeth a gaiff ei thanategu gan egwyddorion cynaliadwyedd. Wrth wneud hynny, mae'r dewis hwn:

- Yn rhoi anogaeth i wasgaru cyflogaeth, tai a mathau eraill o ddatblygiad rhwng aneddiadau a nodwyd a grwpiau neu glystyrau pentrefi mewn modd sy'n adlewyrchu eu graddfa bresennol, eu poblogaeth a'r cyfleusterau a'r gwasanaethau sydd ar gael yno.
- Yn adlewyrchu amrywiaeth y Sir ac yn dosrannu twf yn briodol i ardaloedd trefol a gwledig
- Yn sicrhau bod y rhan fwyaf o dwf cyflogaeth yn digwydd yn y trefi a phentrefi mwy o faint.



### Pethau cadarnhaol

- Mae'n lleihau nifer y siwrneiau a phellteroedd siwrneiau gan felly gyfrannu at gydnherthedd amgylcheddol y Sir
- Yn adlewyrchu'r ddarpariaeth wasanaethau bresennol a'r cyfleusterau sydd ar gael

### Pethau negyddol

- Nid yw'n rhoi ystyriaeth ddigonol i alw'r farchnad yn seiliedig ar gyfraddau cyflawni yn y gorffennol.
- Nid yw'r tai a ddosrannwyd yn flaenorol i'r ail haen a'r drydedd haen o'r hierarchaeth aneddiadau wedi cyflawni yn unol â strategaeth y Cynllun

<ul style="list-style-type: none"> <li>• O fudd i gynhwysiant cymdeithasol trwy roi mynediad i drafnidiaeth, gwasanaethau a chyfleusterau</li> <li>• Dosbarthu twf yn gymesur sy'n adlewyrchu'r dosbarthiad poblogaeth presennol.</li> <li>• I raddau helaeth yn gyson â pholisïau cynllunio cenedlaethol cyfredol a datblygol</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Nid yw'n adlewyrchu'n llawn rôl aneddiadau yn eu cyd-destun ehangach</li> <li>• Mae'n rhoi pwysau ar gymunedau yn yr ardaloedd hynny sydd yn hanesyddol wedi cymryd y rhan fwyaf o'r datblygiadau</li> <li>• Nid yw'n darparu hyblygrwydd a chyfleoedd ar gyfer datblygiadau gwledig ar raddfa fach</li> </ul>
<b>Perfformiad yn erbyn Amcanion Llesiant y Cyngor</b>	
Dechrau'n Dda - Helpu i roi'r dechrau gorau mewn bywyd i bob plentyn a gwella eu profiadau yn gynnwys mewn bywyd	Gwyrdd
Dechrau'n Dda - Helpu plant i ddilyn ffyrdd iach o fyw	Gwyrdd
Dechrau'n Dda - Parhau i wella cyrhaeddiad pob dysgwr	Gwyrdd
Dechrau'n Dda - Lleihau nifer y bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET)	Oren
Dechrau'n Dda / Byw'n Dda - Trechu tlodi drwy wneud popeth o fewn ein gallu i'w atal, gan helpu pobl i gael gwaith a gwella bywydau'r rheiny sy'n byw mewn tlodi	Gwyrdd
Byw'n Dda - Creu mwy o swyddi a thwf ledled y sir	Oren
Byw'n Dda - Cynyddu faint o dai rhent a thai fforddiadwy sydd ar gael	Gwyrdd
Byw'n Dda - Helpu pobl i fyw bywydau iach (mynd i'r afael ag ymddygiad peryglus a gordewdra)	Gwyrdd
Byw'n Dda / Heneiddio'n Dda – Cefnogi cysylltiadau da gyda ffrindiau, teulu a chymunedau mwy diogel	Gwyrdd
Heneiddio'n Dda – Cefnogi'r nifer cynyddol o bobl hŷn er mwyn iddynt gadw'u hurddas a'u hannibyniaeth wrth iddynt heneiddio	Gwyrdd
Heneiddio'n Dda - Ymagwedd ledled y Cyngor tuag at gefnogi Heneiddio'n Dda yn Sir Gaerfyrddin	Gwyrdd
Amgylchedd Iach a Diogel – Edrych ar ôl yr amgylchedd yn awr ac yn y dyfodol	Gwyrdd
Amgylchedd Iach a Diogel – Gwella seilwaith a chysylltedd priffyrdd a thrafnidiaeth	Oren
Amgylchedd Iach a Diogel -- Hyrwyddo'r Iaith Gymraeg a Diwylliant Cymru	Gwyrdd
Adeiladu Gwell Cyngor a Gwneud Gwell Defnydd o Adnoddau	Gwyrdd

Tabl 2: Dewis 1 – Dewis y CDLI Presennol

9.7 Y mae crynodeb o'r asesiad o Dewis 1 isod sydd wedi ei gymeryd o'r Adroddiad Arfarniad Cynaliadwyedd – Asesiad Amgylcheddol Strategol.

Amcan AC	Dewis 1
AC1 Datblygu Cynaliadwy	+
AC2 Bioamrywiaeth	
AC3 Ansawdd Aer	-
AC4 Ffactorau Hinsoddol	+/-
AC5 Dŵr	+/-
AC6 Asedau Materol	+

AC7 Pridd	
AC8 Treftadaeth Ddiwylliannol	
AC9 Tirwedd	
AC10 Poblogaeth	++
AC11 Y Gymraeg	+
AC12 Iechyd a Llesiant	+
AC13 Addysg a Sgiliau	+
AC14 Yr Economi	+
AC15 Gwead Cymdeithas	+

Tabl 3: Crynodeb Asesiad Arfarniad Cynaliadwyedd o Dewis 1

## Casgliadau

9.8 Mewn termau cymharol, mae'r opsiwn hwn yn sgorio'n uchel yn erbyn yr Amcanion Llesiant a'r Amcanion Arfarnu Cynaliadwyedd. Mae hyn yn debygol o fod i'w briodoli'n bennaf i ddsbarthiad cyfrannol y twf ar draws yr hierarchaeth aneddiadau ac iddi bedair haen sy'n effeithio ar raddfa bresennol aneddiadau.

9.9 Mae'r opsiwn hwn yn cynrychioli parhad o'r strategaeth Cynllun Datblygu Lleol bresennol ac felly mae cyfeiriad at ganlyniadau'r adroddiad monitro ac adolygu blynyddol. Tra bo'r ddau yn nodi llwyddiannau wrth weithredu'r strategaeth, maent hefyd yn nodi gwendidau o ran cyflawni twf mewn agweddau o'r hierarchaeth aneddiadau.

9.10 Cydnabyddir y bu elfennau o'r strategaeth yn llwyddiannus, ond mae hefyd yn glir y gallai fod angen adolygiad a dull gweithredu diwygiedig i fynd i'r afael nid yn unig â'r gwendidau ond hefyd y newidiadau cyd-destunol.

## 9.11 Dewis 2 - Dewis Seilwaith a Rhwydwaith Trafnidiaeth

### Disgrifiad

Yn seilio'r mwyafrif o'r twf yn yr ardaloedd sydd gerllaw'r prif rwydwaith priffyrdd a rheilffyrdd lle mae seilwaith ar gael i gefnogi'r datblygiad arfaethedig.

### Mynegiad Gofodol / Aneddiadau a Effeithir

Mae'r opsiwn hwn yn nodi aneddiadau a choridorau allweddol ar hyd y prif lwybrau ac ardaloedd trafniadaeth lle y mae seilwaith mewn lle neu y cynllunnir iddo fod mewn lle er mwyn cynnwys y lefelau twf gofynnol.


### Crynodeb o'r Asesiad

Mae'r dewis hwn yn edrych ar y seilwaith cyfleustodau a'r rhwydwaith priffyrdd a ddarperir ar hyd o bryd ledled y Sir a'i nod yw sicrhau bod y rhan fwyaf o'r twf yn digwydd mewn ardaloedd sydd â'r capasiti i dyfu. Mae'r dewis hwn yn ceisio annog twf yn yr ardaloedd lle gellir darparu ar ei gyfer yn fwyaf ymarferol trwy:

- Annog twf ar hyd lwybrau trafniadaeth allweddol a chyffyrdd yr M4, yr A40, yr A48, yr A484, yr A474 a'r A485 a hefyd mewn mannau sy'n hygyrch i ddulliau

trafnidiaeth eraill gan gynnwys y rhwydwaith rheilffyrdd, y rhwydwaith beicio a chysylltiadau cerddwyr.

- Annog twf mewn ardaloedd lle ceir naill ai gapasiti ar hyn o bryd i gyflenwi a thrin dŵr a dŵr gwastraff neu gynlluniau ar gyfer gwneud hyn.
- Annog twf mewn ardaloedd lle ceir digon o wasanaethau a chyfleusterau i gynnal y cymunedau.



#### Pethau cadarnhaol

- Seilwaith priffyrdd ar gael
- Mae'r rhwydwaith priffyrdd yn cyd-fynd yn agos â'r prif ardaloedd trefol yn y Sir.
- Cysylltiadau cyfleus ag aneddiadau trawsffiniol.
- Mae'n sicrhau bod adnoddau a chyllid yn cael eu dyrannu i ganolfannau a choridorau penodedig, gan felly alluogi datblygiadau yn yr ardaloedd hyn
- Mae'n sicrhau bod twf yn digwydd mewn ardaloedd sy'n cael eu gwasanaethu'n dda gan seilwaith trafniadaeth, gan felly ddarparu patrwm twf cynaliadwy
- Mae'n sicrhau bod twf yn digwydd yn nhrefi, trefi marchnad a phentrefi mwy o faint y Sir yn ogystal â'r ardaloedd twf a nodwyd yn flaenorol
- Mae'r ffaith fod seilwaith ar gael yn rhoi mesur o sicrwydd i ddatblygwyr ynghylch

#### Pethau negyddol

- Efallai na fydd yn diwallu anghenion tai a chyflogaeth rhai cymunedau gan mai'r brif ystyriaeth ar gyfer y strategaeth fyddai'r ddarpariaeth seilwaith a'i chapasiti
- Gallai materion yn ymwneud â chapasiti priffyrdd gyfyngu ar y graddau y gellid cyflawni'r strategaeth yn y lleoliadau penodedig.
- Gallai fod yn cael ei gyrru a'i chyfyngu gan fuddsoddiad yn y seilwaith, yn hytrach na'i bod yn llywio ac yn gyrru'r blaenoriaethau ar gyfer buddsoddi mewn seilwaith
- Efallai na fydd yn ddigon hyblyg i ddelio â materion nad oes modd eu rhagweld yn ymwneud â chapasiti priffyrdd a seilwaith.
- Gallai roi pwysau ar yr amgylchedd naturiol, yn enwedig mewn ardaloedd

<p>y costau a'r amserlenni ar gyfer cyflawni safleoedd a ddyrannwyd</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Gallai'r strategaeth hon ymateb i'r newid yn lleoliad darpariaeth gofal iechyd y Sir trwy annog twf yn agos i'r ddarpariaeth gofal iechyd newydd</li> <li>Bydd y ffaith fod yna seilwaith ar gael yn golygu bod angen llai o fesurau lliniaru yn sgil effeithiau datblygiad a thwf</li> </ul>	<p>sydd yn hanesyddol wedi cymryd y rhan fwyaf o'r datblygiadau</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Efallai nad yw'r ddarpariaeth seilwaith sydd ar gael yn cyd-fynd ag anghenion y cymunedau lleol a'r hyn y mae'r farchnad yn galw amdano</li> <li>Efallai na fydd yn adlewyrchu egwyddorion cynaliadwyedd</li> <li>Nid yw'n ystyried lle mae angen tai a chyfleoedd cyflogaeth</li> <li>Nid yw'r ffocws ar goridorau yn rhoi fawr ddim ystyriaeth i'r patrwm aneddiadau presennol.</li> <li>Nid yw'n darparu ar gyfer cyfleoedd twf mewn aneddiadau gwledig</li> </ul>
<b>Perfformiad yn erbyn Amcanion Llesiant y Cyngor</b>	
Dechrau'n Dda - Helpu i roi'r dechrau gorau mewn bywyd i bob plentyn a gwella eu profiadau yn gynnar mewn bywyd	Oren
Dechrau'n Dda - Helpu plant i ddilyn ffyrdd iach o fyw	Gwyrdd
Dechrau'n Dda - Parhau i wella cyrhaeddiad pob dysgwr	Oren
Dechrau'n Dda - Lleihau nifer y bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET)	Oren
Dechrau'n Dda / Byw'n Dda - Trechu tlodi drwy wneud popeth o fewn ein gallu i'w atal, gan helpu pobl i gael gwaith a gwella bywydau'r rheiny sy'n byw mewn tlodi	Oren
Byw'n Dda - Creu mwy o swyddi a thwf ledled y sir	Coch
Byw'n Dda - Cynyddu faint o dai rhent a thai fforddiadwy sydd ar gael	Gwyrdd
Byw'n Dda - Helpu pobl i fyw bywydau iach (mynd i'r afael ag ymddygiad peryglus a gordewdra)	Gwyrdd
Byw'n Dda / Heneiddio'n Dda – Cefnogi cysylltiadau da gyda ffrindiau, teulu a chymunedau mwy diogel	Oren
Heneiddio'n Dda – Cefnogi'r nifer cynyddol o bobl hŷn er mwyn iddynt gadw'u hurddas a'u hannibyniaeth wrth iddynt heneiddio	Oren
Heneiddio'n Dda - Ymagwedd ledled y Cyngor tuag at gefnogi Heneiddio'n Dda yn Sir Gaerfyrddin	Oren
Amgylchedd Iach a Diogel – Edrych ar ôl yr amgylchedd yn awr ac yn y dyfodol	Gwyrdd
Amgylchedd Iach a Diogel – Gwella seilwaith a chysylltedd priffyrdd a thrafnidiaeth	Oren
Amgylchedd Iach a Diogel -- Hyrwyddo'r Iaith Gymraeg a Diwylliant Cymru	Oren
Adeiladu Gwell Cyngor a Gwneud Gwell Defnydd o Adnoddau	Gwyrdd

Tabl 4: Dewis 2 - Dewis Seilwaith a Rhwydwaith Trafnidiaeth

9.12 Y mae crynodeb o'r asesiad o Dewis 2 isod sydd wedi ei gymeryd o'r Adroddiad Arfarniad Cynaliadwyedd – Asesiad Amgylcheddol Strategol.

Amcan AC	Dewis 2
AC1 Datblygu Cynaliadwy	-
AC2 Bioamrywiaeth	+
AC3 Ansawdd Aer	-

AC4 Ffactorau Hinsoddol	+/-
AC5 Dŵr	+
AC6 Asedau Materol	-
AC7 Pridd	+
AC8 Treftadaeth Ddiwylliannol	
AC9 Tirwedd	
AC10 Poblogaeth	-
AC11 Y Gymraeg	-
AC12 Iechyd a Llesiant	-
AC13 Addysg a Sgiliau	-
AC14 Yr Economi	-
AC15 Gwead Cymdeithas	-

Tabl 5: Crynodeb Aseiad Arfarniad Cynaliadwyedd o Dewis 2

## Casgliadau

9.13 Mae'r opsiwn hwn yn cysylltu twf a'r strategaeth aneddiadau yn uniongyrchol ag argaeledd y seilwaith. Er y byddai hyn yn cyfyngu ar y potensial ar gyfer twf mewn ardaloedd gwledig, cydnabyddir bod y berthynas rhwng datblygiad a'r ddarpariaeth seilwaith briodol yn elfen sy'n angenrheidiol fel rhan o unrhyw opsiwn a gaiff ei ddethol.

9.14 Fodd bynnag, fel rhan o'r aseiad o flaenoriaethau ar gyfer ardaloedd gwledig (yr ymhelaethir arno yn y Papur Pwnc Materion, Gweledigaeth ac Amcanion) nodwyd yr angen am seilwaith priodol ac yn arbennig yr angen i seilwaith priffyrdd, band eang a chcludiant fod ar gael. Mae'r Opsiwn hwn yn canolbwyntio ar argaeledd, neu argaeledd arfaethedig, seilwaith; fodd bynnag, mae'n annhebygol o ddiwallu anghenion yr ardaloedd gwledig nad ydynt yn agos yn ddaeryddol at y rhwydwaith priffyrdd presennol. Gallai hyn achosi mynediad anghyfartal at wasanaethau ledled y Sir a gallai atal twf mewn ardaloedd lle gall fod galw neu angen am dai a chyfleoedd cyflogaeth ychwanegol.

## 9.15 Dewis 3 - Y Dewis Gwasgaru

### Disgrifiad

Dim sail resymegol neu strwythur ar gyfer dosbarthu twf; byddai datblygu yn cael ei wasgaru ar draws y sir.


### Mynegiad Gofodol / Aneddiadau a Effeithir

Gallai'r holl aneddiadau gael eu heffeithio yn gyfartal o dan yr opsiwn hwn am nad oes unrhyw strategaeth i nodi dosbarthiad twf. Fodd bynnag, byddai hyn yn debygol o arwain at lefelau twf sydd ar lefel gymharol gyfartal ar draws aneddiadau'r sir.

### Crynodeb o'r Aseiad

Mae'r dewis hwn yn dosbarthu tai, cyflogaeth a mathau eraill o ddatblygiadau mewn modd eang rhwng aneddiadau'r Sir, gan gynnwys aneddiadau trefol a gwledig fel ei gilydd. Mae'n caniatáu i aneddiadau dyfu'n raddol heb o reidrydd ystyried y gwasanaethau neu'r cyfleusterau sydd ar gael nac ychwaith yr effaith y gallai twf ei chael ar y cymunedau presennol a'u gallu i ddarparu ar gyfer twf a'i dderbyn.

O'i gymharu â strategaeth y CDLI mabwysiedig presennol, byddai'r dewis hwn yn arwain at gyfeirio cyfran uwch o dwf y Sir i'r ardaloedd gwledig a chyfran is i'r ardaloedd trefol presennol.



#### Pethau cadarnhaol

- Mae'n lleihau'r pwysau i ddatblygu sydd ar ardaloedd trefol trwy annog datblygiadau newydd mewn pentrefi a chanolfannau gwledig.
- Mae aneddiadau gwledig sy'n tyfu yn well am gadw gwasanaethau a chyfleusterau.
- Gallai datblygiadau preswyl ar raddfa fwy ddarparu cyfleoedd ychwanegol ar gyfer tai fforddiadwy mewn ardaloedd gwledig.
- Mae twf wedi'i wasgaru yn rhoi'r hyblygrwydd i ymateb i'r cyfyngiadau sydd gan ardal benodol trwy wasgaru datblygiadau ar draws nifer fwy o leoliadau.
- Mae'n ymateb i anghenion datblygu cymunedau trefol a gwledig fel ei gilydd

#### Pethau negyddol

- Nid yw'n rhoi ystyriaeth i anghenion ardaloedd.
- Mae'n golygu bod angen rhyddhau tir glas.
- Gallai twf aneddiadau mewn ardaloedd sensitif niweidio'r ardaloedd hynny.
- Byddai diffyg mynediad i drafnidiaeth gyhoeddus yn arwain at gynnydd yn nifer a hyd teithiau mewn ceir.
- Mae'n gofyn am lefel uchel o fuddsoddi mewn seilwaith, gwasanaethau a chyfleusterau.
- Gall gyfrannu at allgáu cymdeithasol yn sgil cynnydd mewn costau ynni a theithio.
- Nid yw'n rhoi ystyriaeth i alw'r farchnad
- Mae'n annhebygol y bydd yn cyd-fynd ag egwyddorion cynaliadwyedd a pholisi cynllunio cenedlaethol.
- Gallai gael effaith bosibl ar gymeriad a diwylliant ardaloedd gwledig.
- Gall effeithio ar y gwasanaethau a ddarperir trwy batrwm datblygu anghynaliadwy.

<b>Perfformiad yn erbyn Amcanion Llesiant y Cyngor</b>	
Dechrau'n Dda - Helpu i roi'r dechrau gorau mewn bywyd i bob plentyn a gwella eu profiadau yn gynnar mewn bywyd	Gwyrdd
Dechrau'n Dda - Helpu plant i ddilyn ffyrdd iach o fyw	Gwyrdd
Dechrau'n Dda - Parhau i wella cyrhaeddiad pob dysgwr	Oren
Dechrau'n Dda - Lleihau nifer y bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET)	Oren
Dechrau'n Dda / Byw'n Dda - Trechu tlodi drwy wneud popeth o fewn ein gallu i'w atal, gan helpu pobl i gael gwaith a gwella bywydau'r rheiny sy'n byw mewn tlodi	Oren
Byw'n Dda - Creu mwy o swyddi a thwf ledled y sir	Oren
Byw'n Dda - Cynyddu faint o dai rhent a thai fforddiadwy sydd ar gael	Gwyrdd
Byw'n Dda - Helpu pobl i fyw bywydau iach (mynd i'r afael ag ymddygiad peryglus a gordewdra)	Coch
Byw'n Dda / Heneiddio'n Dda – Cefnogi cysylltiadau da gyda ffrindiau, teulu a chymunedau mwy diogel	Coch
Heneiddio'n Dda – Cefnogi'r nifer cynyddol o bobl hŷn er mwyn iddynt gadw'u hurddas a'u hannibyniaeth wrth iddynt heneiddio	Oren
Heneiddio'n Dda - Ymagwedd ledled y Cyngor tuag at gefnogi Heneiddio'n Dda yn Sir Gaerfyrddin	Oren
Amgylchedd Iach a Diogel – Edrych ar ôl yr amgylchedd yn awr ac yn y dyfodol	Oren
Amgylchedd Iach a Diogel – Gwella seilwaith a chysylltedd priffyrdd a thrafnidiaeth	Coch
Amgylchedd Iach a Diogel -- Hyrwyddo'r Iaith Gymraeg a Diwylliant Cymru	Oren
Adeiladu Gwell Cyngor a Gwneud Gwell Defnydd o Adnoddau	Coch

Tabl 6: Dewis 3 Y Dewis Gwasgaru

9.16 Y mae crynodeb o'r asesiad o Dewis 3 isod sydd wedi ei gymeryd o'r Adroddiad Arfarniad Cynaliadwyedd – Asesiad Amgylcheddol Strategol.

Amcan AC	Dewis 3
AC1 Datblygu Cynaliadwy	-
AC2 Bioamrywiaeth	
AC3 Ansawdd Aer	-
AC4 Ffactorau Hinsoddol	+/-
AC5 Dŵr	-
AC6 Asedau Materol	-
AC7 Pridd	-
AC8 Treftadaeth Ddiwylliannol	
AC9 Tirwedd	-
AC10 Poblogaeth	-
AC11 Y Gymraeg	-
AC12 Iechyd a Llesiant	-
AC13 Addysg a Sgiliau	-
AC14 Yr Economi	-



Tabl 7: Crynodeb Asesiad Arfarniad Cynaliadwyedd o Dewis 3

## Casgliadau

9.17 Mae hwn yn cynrychioli opsiwn sy'n anghynaliadwy ar y cyfan ac yn opsiwn na ellir ei gyflenwi - ac yn un a fyddai o ganlyniad yn annhebygol o fodloni'r mesurau angenrheidiol fel rhan o'r broses arfarniad o gynaliadwyedd / Asesiad Amgylcheddol Strategol. Ar ben hynny, byddai'n codi materion difrifol mewn perthynas ag Amcan Llesiant y Cyngor i ddefnyddio adnoddau'n well. Rhagwelir y byddai'r Opsiwn hwn yn golygu bod angen buddsoddiad ychwanegol er mwyn darparu gwasanaethau ar gyfer trigolion yn rhannau gwledig y Sir a all fod wedi'u lleoli'n bellach i ffwrdd oddi wrth wasanaethau a chyfleusterau.

9.18 Fodd bynnag, trwy ei ddull cyffredinol o ran dosbarthu twf mae'r opsiwn hwn yn canolbwyntio twf ychwanegol mewn ardaloedd gwledig. Cydnabyddir bod cyfran sylweddol o'r Sir yn wledig ac y bydd yn ofynnol i'r opsiwn a ddewisir fel yr un a ffefrir roi sylw priodol i ystyriaethau gwledig a'r rhain.

## 9.19 Dewis 4 - Dewis dan Arweiniad y Gymuned

### Disgrifiad

Byddai datblygiad yn cael ei wasgaru o fewn ardaloedd cymunedol mewn ffordd sy'n adlewyrchu'r rôl mae aneddiadau yn ei chwarae o fewn yr ardaloedd hynny a'r ardal ddaearyddol ehangach.

### Mynegiad Gofodol / Aneddiadau a Effeithir

Byddai mwyafrif y twf yn canolbwyntio ar y tair ardal ganlynol: Caerfyrddin a'r ardal gyfagos, ardal arfordirol Llanelli, ac ardal Rhydaman / Cross Hands.

### Crynodeb o'r Asesiad


Mae'r dewis hwn yn canolbwyntio ar rôl aneddiadau yn eu hardal a'u cymuned ehangach, sy'n cydnabod y berthynas a'r gyd-ddibyniaeth rhwng aneddiadau ac yn ystyried sut mae'r cymunedau lleol yn gweithio ac yn byw.

Bydd y dewis hwn yn annog twf yn yr ardaloedd hynny sy'n chwarae rôl arwyddocaol yn y gymuned ehangach; mae hyn yn fwyaf tebygol o fod trwy ddarparu cyfleusterau a gwasanaethau yn hytrach na graddfa bresennol yr anheddiad neu niferoedd y boblogaeth presennol. Byddai'r dewis hwn hefyd yn ceisio adlewyrchu anghenion y cymunedau, gan gynnwys eu galw am dai. Mae hyn yn cydnabod nodweddion unigol pob anheddiad ac mae'n ceisio nodi'r rôl y mae aneddiadau yn ei chwarae yn eu hardal ac ar draws y sir.

Dylai'r dewis hwn adlewyrchu dealltwriaeth o anghenion cymunedau lleol a sicrhau bod twf yn digwydd mewn ardaloedd lle mae ei angen, er mwyn cefnogi cymunedau a'u dyheadau ar gyfer twf yn y dyfodol a materion parhaus yn ymwneud â chynaliadwyedd cyfleusterau a gwasanaethau. Mae hyn yn debygol o arwain at ddyrannu safleoedd llai a chyfeirio cyfran uwch o dwf i aneddiadau llai.

Yn yr un modd ag Opsiwn 1, mae'r opsiwn hwn yn ceisio darparu dosbarthiad twf cyfrannol i ardaloedd trefol a gwledig. Fodd bynnag, tra bo Opsiwn 1 yn tynnu'n sylweddol ar raddfa bresennol aneddiadau mae'r opsiwn hwn yn darparu ar gyfer

hyblygrwydd i glustnodi'r twf a ddosrennir o fewn ardal ehangach yn hytrach na chyfyngu'r twf i'r aneddiadau mwy. Mae hefyd yn amcanu at adlewyrchu rôl aneddiadau yn eu hardaloedd lleol o ran cefnogi cymunedau cynaliadwy. Goleuir hyn gan y Papur Pwnc Rôl a Swyddogaethau.



#### Pethau cadarnhaol

- Mae'n darparu cydbwysedd rhwng ardaloedd trefol ac ardaloedd gwledig cyferbyniol y sir, sy'n adlewyrchu egwyddorion cynaliadwyedd
- Byddai'r twf a ddosrennir yn adlewyrchu'r rôl y mae'r aneddiadau yn ei chwarae yn eu cymunedau
- Mae'n cefnogi'r defnydd parhaus o gyfleusterau a gwasanaethau cymunedol mewn ardaloedd gwledig a threfol
- Gallai fod o gymorth i gadw pobl iau yn yr anheddiad.
- Gallai arwain at fwy o gyfleoedd buddsoddi yn yr ardaloedd gwledig
- Gallai ganiatáu ymagwedd hyblyg at dwf ar raddfa fach mewn cymunedau gwledig
- Gallai arwain at ddosrannu twf mewn modd sy'n cydnabod ac yn parchu nodweddion aneddiadau.

#### Pethau negyddol

- Gallai arwain at ddatblygu mewn lleoliadau nad ydynt yn gynaliadwy o safbwynt amgylcheddol
- Gallai arwain at dwf anghymesur mewn ardaloedd gwledig
- Gallai datblygu mewn ardaloedd gwledig arwain at deithiau car sylweddol a fyddai'n groes i egwyddorion cynaliadwyedd
- Nid yw'n glir a fyddai'r twf a ddyrennir i rai aneddiadau mewn ardaloedd gwledig, yn enwedig y trefi marchnad, yn cael ei wireddu o gofio mai twf cyfyngedig sydd wedi digwydd yn llwyddiannus yn yr ardaloedd hyn yn y gorffennol; gallai hyn gael effaith niweidiol ar gyflawni'r Cynllun.

<ul style="list-style-type: none"> <li>Gall gyfrannu at gynhwysiant cymdeithasol mewn ardaloedd gwledig trwy annog twf a buddsoddiad mewn gwasanaethau a chyfleusterau, gan adlewyrchu rôl canolfannau trefol presennol, ac atgyfnerthu hynny lle bo'n briodol.</li> </ul>	
<b>Perfformiad yn erbyn Amcanion Llesiant y Cyngor</b>	
Dechrau'n Dda - Helpu i roi'r dechrau gorau mewn bywyd i bob plentyn a gwella eu profiadau yn gynnar mewn bywyd	Gwyrdd
Dechrau'n Dda - Helpu plant i ddilyn ffyrdd iach o fyw	Gwyrdd
Dechrau'n Dda - Parhau i wella cyrhaeddiad pob dysgwr	Gwyrdd
Dechrau'n Dda - Lleihau nifer y bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET)	Gwyrdd
Dechrau'n Dda / Byw'n Dda - Trechu tlodi drwy wneud popeth o fewn ein gallu i'w atal, gan helpu pobl i gael gwaith a gwella bywydau'r rheiny sy'n byw mewn tlodi	Gwyrdd
Byw'n Dda - Creu mwy o swyddi a thwf ledled y sir	Oren
Byw'n Dda - Cynyddu faint o dai rhent a thai fforddiadwy sydd ar gael	Gwyrdd
Byw'n Dda - Helpu pobl i fyw bywydau iach (mynd i'r afael ag ymddygiad peryglus a gordewdra)	Gwyrdd
Byw'n Dda / Heneiddio'n Dda – Cefnogi cysylltiadau da gyda ffrindiau, teulu a chymunedau mwy diogel	Gwyrdd
Heneiddio'n Dda – Cefnogi'r nifer cynyddol o bobl hŷn er mwyn iddynt gadw'u hurddas a'u hannibyniaeth wrth iddynt heneiddio	Gwyrdd
Heneiddio'n Dda - Ymagwedd ledled y Cyngor tuag at gefnogi Heneiddio'n Dda yn Sir Gaerfyrddin	Gwyrdd
Amgylchedd Iach a Diogel – Edrych ar ôl yr amgylchedd yn awr ac yn y dyfodol	Gwyrdd
Amgylchedd Iach a Diogel – Gwella seilwaith a chysylltedd priffyrdd a thrafnidiaeth	Oren
Amgylchedd Iach a Diogel -- Hyrwyddo'r Iaith Gymraeg a Diwylliant Cymru	Gwyrdd
Adeiladu Gwell Cyngor a Gwneud Gwell Defnydd o Adnoddau	Gwyrdd

Tabl 8: Dewis 4 - Dewis dan Arweiniad y Gymuned

9.20 Y mae crynodeb o'r asesiad o Dewis 4 isod sydd wedi ei gymeryd o'r Adroddiad Arfarniad Cynaliadwyedd – Asesiad Amgylcheddol Strategol.

Amcan AC	Dewis 4
AC1 Datblygu Cynaliadwy	+
AC2 Bioamrywiaeth	
AC3 Ansawdd Aer	-
AC4 Ffactorau Hinsoddol	+/-
AC5 Dŵr	+
AC6 Asedau Materol	+
AC7 Pridd	

AC8 Treftadaeth Ddiwylliannol	I
AC9 Tirwedd	I
AC10 Poblogaeth	++
AC11 Y Gymraeg	+
AC12 Iechyd a Llesiant	++
AC13 Addysg a Sgiliau	+
AC14 Yr Economi	+
AC15 Gwead Cymdeithas	++

Tabl 9: Crynodeb Asesiad Arfarniad Cynaliadwyedd o Dewis 4

## Casgliadau

9.21 Mae'r opsiwn hwn yn ceisio bod yn fwy ymatebol i agweddau unigol y sir a'i chymunedau. Er y byddai ffocws canfyddedig y twf mewn canolfannau sefydledig, mae'n rhoi cyfle i adlewyrchu dosbarthiad ehangach.

9.22 Mae'r opsiwn hwn yn cymharu'n dda pan gaiff ei ystyried yn erbyn yr Amcanion Arfarnu Cynaliadwyedd ac Amcanion Llesiant y Cyngor.

9.23 Mae adborth yn dynodi y byddai angen i'r opsiwn fod â chydbwysedd priodol i sicrhau bod twf yn cael ei ddosbarthu mewn modd priodol ac mewn modd sy'n golygu y gellir ei gyflawni. Er y bu adborth cymharol gadarnhaol mewn perthynas â'r egwyddorion sy'n tanategu'r opsiwn hwn, bu pryderon hefyd ei bod yn bosibl nad yw'n un y gellir ei gyflawni'n gwbl realistig. Nid yw'r opsiwn hwn yn cyfeirio'n penodol at alwadau'r farchnad a thueddiadau'r farchnad a chydabyddir bod rhaid dosrannu twf i ardaloedd lle ceir dyhead, galw neu gymhelliad i gyflawni'r twf hwnnw.

## 9.24 Dewis 5 - Dewis ar sail Dylanwad Dinas-ranbarth Bae Abertawe

### Disgrifiad

Mae'n canolbwyntio twf i alinio â'r ardaloedd a nodwyd ar gyfer prosiectau Bargen Ddinesig Bae Abertawe.

### Mynegiad Gofodol / Aneddiadau a Effeithir


Byddai'r rhan fwyaf o'r twf yn canolbwyntio ar ardaloedd Llanelli a Chaerfyrddin gyda'r rheini sydd yn yr ardaloedd cyfagos hefyd yn derbyn cyfran o'r twf.

### Crynodeb o'r Asesiad

Mae'r dewis hwn yn canolbwyntio ar y prosiectau a'r buddsoddiad a gynllunnir fel rhan o Fargen Ddinesig Bae Abertawe ac yn sianelu twf i gyd-fynd â'r ardaloedd daearyddol hyn. Y prosiectau a gynnigir ar gyfer Sir Gaerfyrddin yw:

- Y Pentref Gwyddor Bywyd a Llesiant, Llanelli. Pentref yw hwn a fydd yn darparu cyfleusterau a gwasanaethau i hyrwyddo a gwella llesiant. Bwriedir iddo fod yn gyfleuster amlochrog sy'n cyfuno datblygiad busnesau, addysg, gofal iechyd, hamdden, twristiaeth, cymorth llesiant ac ymchwil mewn gwyddorau bywyd mewn un lleoliad; ac
- Yr Egin, Caerfyrddin. Byddai'r cyfleuster hwn yn ganolfan greadigol, ddigidol a chyfryngau newydd i'w lleoli ym Mhrifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant

Mae'r Dewis hwn yn debygol o arwain at ganolbwyntio'r rhan fwyaf o'r twf yng Nghaerfyrddin a Llanelli a'r ardaloedd cyfagos; fodd bynnag, efallai mai ychydig iawn o dwf y bydd yr aneddiadau ymhellach i ffwrdd o Gaerfyrddin a Llanelli yn ei weld. Mae'n bosibl y bydd yn darparu cyfleoedd ar gyfer buddsoddiadau deilliedig a gweithgareddau seiliedig ar entrepreneuriaeth trwy adeiladu ar flaenoriaethau'r Fargen Ddinesig.



Pethau cadarnhaol	Pethau negyddol
<ul style="list-style-type: none"> <li>• Mae'n debygol o arwain at greu swyddi sylweddol</li> <li>• Byddai'r ymrwymiad a roddwyd eisoes i fuddsoddiad sylweddol yn y prosiectau hyn yn gwneud y Dewis yn un haws i'w gyflawni</li> <li>• Byddai'r datblygiad yn adeiladu ar y buddsoddiad a'r adnoddau sylweddol sy'n ceisio hwyluso'r gwaith o gyflawni Bargaen Ddinesig Bae Abertawe ac yn elwa arnynt</li> <li>• Byddai cyfleoedd cyflogaeth a datblygiadau preswyl y dyfodol yn cydfynd yn dda a dylai hyn gyfrannu at batrwm datblygu mwy cynaliadwy</li> <li>• Byddai'n golygu bod modd rhoi ystyriaeth barhaus i'r patrwm aneddiadau presennol</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Gallai'r twf yng ngogledd y sir fod yn gyfyngedig</li> <li>• Mae'n cyfyngu at ddatblygu y tu allan i'r canolfannau trefol.</li> <li>• Mae'n cynyddu'r posibilrwydd o or-ddatblygu ardaloedd trefol a fyddai'n arwain at ddwysedd a gorlenwi trefol.</li> <li>• Gall anghenion datblygu roi pwysau ar lecynnau gwyrdd trefol.</li> <li>• Mae'n rhoi pwysau ychwanegol ar wasanaethau cyhoeddus trefol.</li> <li>• Byddai'n cyfyngu ar gynigion mewn ardaloedd gwledig gan effeithio o bosibl ar ddarpariaeth gwasanaethau lleol a lefel y boblogaeth.</li> <li>• Bydd yr ardaloedd sydd ymhell i ffwrdd o ardaloedd y prosiect yn debygol o ddibynnu ar ddarpariaeth a chyflymder band eang er mwyn elwa o'r buddsoddiad yn yr ardaloedd hyn.</li> </ul>

<b>Perfformiad yn erbyn Amcanion Llesiant y Cyngor</b>	
Dechrau'n Dda - Helpu i roi'r dechrau gorau mewn bywyd i bob plentyn a gwella eu profiadau yn gynnar mewn bywyd	Oren
Dechrau'n Dda - Helpu plant i ddilyn ffyrdd iach o fyw	Gwyrdd
Dechrau'n Dda - Parhau i wella cyrhaeddiad pob dysgwr	Oren
Dechrau'n Dda - Lleihau nifer y bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET)	Gwyrdd
Dechrau'n Dda / Byw'n Dda - Trechu tlodi drwy wneud popeth o fewn ein gallu i'w atal, gan helpu pobl i gael gwaith a gwella bywydau'r rheiny sy'n byw mewn tlodi	Gwyrdd
Byw'n Dda - Creu mwy o swyddi a thwf ledled y sir	Gwyrdd
Byw'n Dda - Cynyddu faint o dai rhent a thai fforddiadwy sydd ar gael	Gwyrdd
Byw'n Dda - Helpu pobl i fyw bywydau iach (mynd i'r afael ag ymddygiad peryglus a gordewdra)	Gwyrdd
Byw'n Dda / Heneiddio'n Dda – Cefnogi cysylltiadau da gyda ffrindiau, teulu a chymunedau mwy diogel	Oren
Heneiddio'n Dda – Cefnogi'r nifer cynyddol o bobl hŷn er mwyn iddynt gadw'u hurddas a'u hannibyniaeth wrth iddynt heneiddio	Oren
Heneiddio'n Dda - Ymagwedd ledled y Cyngor tuag at gefnogi Heneiddio'n Dda yn Sir Gaerfyrddin	Oren
Amgylchedd Iach a Diogel – Edrych ar ôl yr amgylchedd yn awr ac yn y dyfodol	Gwyrdd
Amgylchedd Iach a Diogel – Gwella seilwaith a chysylltedd priffyrdd a thrafnidiaeth	Oren
Amgylchedd Iach a Diogel -- Hyrwyddo'r Iaith Gymraeg a Diwylliant Cymru	Oren
Adeiladu Gwell Cyngor a Gwneud Gwell Defnydd o Adnoddau	Gwyrdd

Tabl 10: Dewis 5 - Dewis ar sail Dylanwad Dinas-ranbarth Bae Abertawe

9.25 Y mae crynodeb o'r asesiad o Dewis 5 isod sydd wedi ei gymeryd o'r Adroddiad Arfarniad Cynaliadwyedd – Asesiad Amgylcheddol Strategol.

Amcan AC	Dewis 5
AC1 Datblygu Cynaliadwy	?
AC2 Bioamrywiaeth	+
AC3 Ansawdd Aer	-
AC4 Ffactorau Hinsoddol	-
AC5 Dŵr	-
AC6 Asedau Materol	-
AC7 Pridd	+
AC8 Treftadaeth Ddiwylliannol	
AC9 Tirwedd	
AC10 Poblogaeth	+/-
AC11 Y Gymraeg	+/-
AC12 Iechyd a Llesiant	+/-
AC13 Addysg a Sgiliau	++
AC14 Yr Economi	++

## Casgliadau

9.26 Mae'r Opsiwn hwn yn gyson â chynlluniau economaidd rhanbarthol yr ystyrir y byddant yn cael effeithiau manteisiol ar economi'r Sir ac yn denu mewnfuddsoddiad. Ar ben hynny, mae'n rhoi cydnabyddiaeth lawn i bwysigrwydd strategol y safleoedd dynodedig – Yr Egin a'r Pentref Gwyddorau Bywyd a Lles.

9.27 Mae'r opsiwn hwn yn cofleidio, ac fe'i hysgogir gan, y prif gyfleoedd a gyflwynir trwy'r Fargen Ddinesig. Mae'n canolbwyntio ar leoliadau'r 2 brif brosiect yn Sir Gaerfyrddin a chan hynny byddai'n llai cynhwysol lle mae gweddill y Sir yn y cwestiwn. Fe gododd gwaith ymgysylltu gyda rhanddeiliaid bryderon ynghylch canoli'r twf o amgylch ardaloedd Caerfyrddin a Llanelli a'r diffyg twf a ddosrennir i ran ogleddol y Sir ac mae'r Adroddiad ar yr Asesiad Amgylcheddol Strategol – Arfarniad Cynaliadwyedd yn nodi bod yr effeithiau hirdymor ar economi'r Sir dan yr opsiwn hwn yn ansicr ac y gallent waethygu anghyfartalwch rhwng sefyllfa economaidd gogledd a de'r Sir.

9.28 Er hynny, mae'r gwaith ymgysylltu ac asesu hyd yma'n cydnabod pwysigrwydd rhanbarthol y prosiectau hyn a'r buddsoddiad y byddant yn ei ddenu. Felly dylai gael ei gydnabod a'i adlewyrchu mewn unrhyw opsiwn a ffefrir ar gyfer y CDLI Diwygiedig.

## 9.29 Dewis 6 - Dewis dan Arweiniad y Farchnad

### Disgrifiad

Yn canolbwyntio twf yn yr ardaloedd sydd wedi profi'n fwyaf poblogaidd gyda'r farchnad dai dros y blynyddoedd diweddar.

### Mynegiad Gofodol / Aneddiadau a Effeithir


Byddai twf yn cael ei ganolbwyntio ar haen uchaf yr hierarchaeth aneddiadau sydd gan y Cynllun Datblygu Lleol a fabwysiadwyd, sy'n cynnwys ardaloedd Caerfyrddin, Llanelli, Rhydaman a Cross Hands.

### Crynodeb o'r Asesiad

Bydd y dewis hwn yn ceisio bodloni dyheadau a gofynion y diwydiant datblygu trwy nodi safleoedd ac ardaloedd sydd fwyaf deniadol yn economaidd i'w datblygu. Mae'r dewis hwn yn edrych ar lwyddiant marchnad aneddiadau'r sir ers 2008 ac yn dosrannu twf yn unol â chyfraddau cyflawni'r gorffennol.

Mae cyfraddau cyflawni'r gorffennol yn dangos bod y rhan fwyaf o'r twf wedi digwydd yn ardal Llanelli, gyda chryn dipyn o ddatblygu hefyd yn digwydd yn ardal dwf Caerfyrddin ac mewn rhannau o ardal dwf Rhydaman/Cross Hands.

Gellid dehongli'r dull hwn fel 'cynllunio ar sail niferoedd'. Byddai'n ceisio cyfeirio twf yn unol â chyfraddau cyflawni uchaf y gorffennol ac yn cymhwyso'r duedd hon er mwyn nodi lleoliad datblygiadau yn y dyfodol. Byddai darpariaeth cyflogaeth y dyfodol yn adlewyrchu'r defnydd a wneir o dir cyflogaeth ar hyn o bryd, a byddai perthynas agos rhwng hynny a dosraniad y tai.



Pethau cadarnhaol	Pethau negyddol
<ul style="list-style-type: none"> <li>• Ffocws ar gyflawni yn ôl grymoedd y farchnad, heb gynnwys y sector cyhoeddus i raddau mawr.</li> <li>• Byddai datblygiadau newydd wedi'u cysylltu'n dda â'r seilwaith trafniadaeth presennol a'r gwasanaethau a'r cyfleusterau presennol.</li> <li>• Mae'n debygol o ganiatáu hyfywedd ariannol a phroffidioldeb.</li> <li>• Mae'n darparu tai yn yr ardaloedd sy'n boblogaidd gyda'r mwyafrif, ac felly byddai'n perfformio'n dda o ran y cyflenwad o dai a'r galw amdanynt.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• O gofio agosrwydd a hygyrchedd ardal Llanelli i ffin y Sir â Sir Abertawe, gallai'r dewis hwn gynyddu'r cyflenwad o dai i fodloni galw y tu allan i ardal y cynllun.</li> <li>• Mae'n amodol ar dueddiadau'r farchnad a byddai ffyniant economaidd a dirwasgiad yn dylanwadu arno.</li> <li>• Mae'r Dewis hwn yn canoli twf yn yr aneddiadau trefol presennol a byddai'n llai tebygol o gydnabod rôl ardaloedd gwledig.</li> <li>• Gallai gyfrannu at dagfeydd ar hyd y rhwydwaith priffyrdd yn yr ardaloedd a nodwyd ar gyfer cyfran uwch o dwf, yn enwedig yn ardal Llanelli.</li> <li>• Efallai na fydd yn ddigon hyblyg i ymateb i newidiadau yng ngalw'r farchnad, yn enwedig mewn ymateb i newidiadau yn y lleoliadau a ffefrir.</li> <li>• Byddai'r dewis gofodol yn cael ei lywio gan gyfraddau adeiladu'r gorffennol ond efallai na fydd hyn yn adlewyrchiad cywir o alw'r</li> </ul>



	<p>farchnad, o ystyried y gallai fod yna awydd i adeiladu a byw mewn mannau eraill ond bod cyfyngiadau eraill a hyfywedd ariannol yn rhwystro safleoedd yn y lleoliadau hyn rhag cael eu cyflawni.</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Mae'n rhoi pwysau ar gymunedau yn yr ardaloedd hynny sydd yn hanesyddol wedi cymryd y rhan fwyaf o'r datblygiadau.</li> <li>• Mae'n rhoi pwysau ar lecynnau gwyrdd yn yr ardaloedd a nodwyd i dderbyn y rhan fwyaf o'r twf.</li> </ul>
<b>Perfformiad yn erbyn Amcanion Llesiant y Cyngor</b>	
Dechrau'n Dda - Helpu i roi'r dechrau gorau mewn bywyd i bob plentyn a gwella eu profiadau yn gynnar mewn bywyd	<b>Coch</b>
Dechrau'n Dda - Helpu plant i ddilyn ffyrdd iach o fyw	<b>Coch</b>
Dechrau'n Dda - Parhau i wella cyrhaeddiad pob dysgwr	<b>Oren</b>
Dechrau'n Dda - Lleihau nifer y bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET)	<b>Oren</b>
Dechrau'n Dda / Byw'n Dda - Trechu tlodi drwy wneud popeth o fewn ein gallu i'w atal, gan helpu pobl i gael gwaith a gwella bywydau'r rheiny sy'n byw mewn tlodi	<b>Coch</b>
Byw'n Dda - Creu mwy o swyddi a thwf ledled y sir	<b>Coch</b>
Byw'n Dda - Cynyddu faint o dai rhent a thai fforddiadwy sydd ar gael	<b>Gwyrdd</b>
Byw'n Dda - Helpu pobl i fyw bywydau iach (mynd i'r afael ag ymddygiad peryglus a gordewdra)	<b>Oren</b>
Byw'n Dda / Heneiddio'n Dda – Cefnogi cysylltiadau da gyda ffrindiau, teulu a chymunedau mwy diogel	<b>Oren</b>
Heneiddio'n Dda – Cefnogi'r nifer cynyddol o bobl hŷn er mwyn iddynt gadw'u hurddas a'u hannibyniaeth wrth iddynt heneiddio	<b>Oren</b>
Heneiddio'n Dda - Ymagwedd ledled y Cyngor tuag at gefnogi Heneiddio'n Dda yn Sir Gaerfyrddin	<b>Oren</b>
Amgylchedd Iach a Diogel – Edrych ar ôl yr amgylchedd yn awr ac yn y dyfodol	<b>Oren</b>
Amgylchedd Iach a Diogel – Gwella seilwaith a chysylltedd priffyrdd a thrafnidiaeth	<b>Coch</b>
Amgylchedd Iach a Diogel -- Hyrwyddo'r Iaith Gymraeg a Diwylliant Cymru	<b>Oren</b>
Adeiladu Gwell Cyngor a Gwneud Gwell Defnydd o Adnoddau	<b>Oren</b>

Tabl 12: Dewis 6 - Dewis dan Arweiniad y Farchnad

9.30 Y mae crynodeb o'r asesiad o Dewis 6 isod sydd wedi ei gymeryd o'r Adroddiad Arfarniad Cynaliadwyedd – Asesiad Amgylcheddol Strategol.

Amcan AC	Dewis 6
AC1 Datblygu Cynaliadwy	?
AC2 Bioamrywiaeth	I
AC3 Ansawdd Aer	-
AC4 Ffactorau Hinsoddol	-

AC5 Dŵr	-
AC6 Asedau Materol	-
AC7 Pridd	+
AC8 Treftadaeth Ddiwylliannol	
AC9 Tirwedd	
AC10 Poblogaeth	+/-
AC11 Y Gymraeg	-
AC12 Iechyd a Llesiant	+/-
AC13 Addysg a Sgiliau	?
AC14 Yr Economi	?
AC15 Gwead Cymdeithas	-

Tabl 13: Crynodeb Asesiad Arfarniad Cynaliadwyedd o Dewis 6

## Casgliadau

9.31 Er y gallai gael ei gyflawni yn ôl dehongliad gor-symbl, byddai'r opsiwn hwn, trwy ei ffocws ar y farchnad, dan fygythiad gan ystyriaethau a chyfyngiadau eraill a byddai'n gwaredu unrhyw ddylanwad lleol yn sylweddol. Nid yw'n cael ei ystyried yn opsiwn y gellir ei gyflawni yn ymarferol ond mae'n cyfeirio'n eglur at rôl y farchnad a'r diwydiant datblygu o ran cyfrannu at gynllun sy'n gadarn ac y gellir ei gyflawni.

9.32 Mae'r opsiwn hwn yn perfformio'n gymharol wael o safbwynt Asesiad Amgylcheddol Strategol – Arfarniad Cynaliadwyedd ac mewn asesiad yn erbyn yr Amcanion Llesiant. Hefyd, yn debyg i opsiwn 5 uchod, canfu gwaith ymgysylltu gyda rhanddeiliaid bryderon ynghylch lefel y twf a ddosrennir i dde'r Sir a'r diffyg twf a ddosrennir i ran ogleddol y Sir. Fodd bynnag, nodwyd, yn enwedig trwy'r Fforwm Datblygwyr, fod yn rhaid cydnabod galw'r farchnad mewn unrhyw strategaeth a ffeirir i sicrhau bod twf yn cael ei gyflawni a bod y dyraniadau yn y CDLI Diwygiedig yn rhai y gellir eu cyflawni'n realistig. Mae'n anorfod y bydd rôl y farchnad yn cyfrannu at ddatblygiad yr opsiwn a ffeirir.

## 10. Yr Opsiwn a Ffeirir

### Strategaeth Twf Cynaliadwy a Chymuned Gytbwys

10.1 Mae'r opsiwn hybrid hwn yn adeiladu ar y dull gweithredu y tynnwyd sylw ato drwy Opsiwn Strategol 4 – Wedi'i Arwain gan y Gymuned, ond mae'n cael gwared ar y dull gweithredu cyfarwyddol o ran nodi cymeriad ardaloedd o fewn y sir. Fodd bynnag, bydd y strategaeth hon yn cadw dull gweithredu sy'n adlewyrchu rôl a swyddogaeth yr aneddiadau a bydd yn ceisio bod yn ymatebol o ran sut mae'n aseinio twf i ardaloedd trefol a gwledig yn y sir.

- Bydd yr opsiwn yn cydnabod ac adlewyrchu buddsoddiad a buddiannau economaidd i'r sir a'i chymunedau drwy'r Fargen Ddinesig, a chyfleoedd economaidd eraill.

- Bydd yn ceisio darparu cyfleoedd i ardaloedd gwledig, gan sicrhau bod amrywiaeth y sir a'i chymunedau yn cael ei chydabod.
- Bydd yn cydnabod drwy gyflenwi twf cynaliadwy fod angen iddo gael ei gefnogi gan argaeledd amrediad o seilwaith priodol.
- Bydd yn cydnabod y dylai twf fod yn gyflawnadwy ac wedi'i deilwra i anghenion y gymuned a galw ar y farchnad.

10.2 Mae'r opsiwn hwn a ffefrir yn cydnabod cymeriad cyferbyniol Sir Gaerfyrddin yn yr ystyr ei fod yn ceisio darparu a gyfer yr ardaloedd trefol a gwledig a dosrannu lefelau priodol o dwf i'r ardaloedd hyn. Mae'r egwyddorion hyn yn tanategu opsiwn gofodol 4 – Opsiwn a Arweinir gan y Gymuned a chan hynny ystyrir ei bod yn briodol iddynt fod yn ddylanwad sylweddol ar yr opsiwn a ffefrir.

10.3 Mewn ymateb i'r gwaith ymgysylltu a wnaed a'r manteision economaidd, ariannol ac addysgol y disgwylir iddynt ddeillio o Fargen Ddinesig Bae Abertawe, cydnabyddir y dylai natur strategol y cynlluniau hyn gael ei hadlewyrchu yn yr opsiwn a ffefrir. Cydnabyddir hefyd na ellir anwybyddu pwysigrwydd dylanwadau'r farchnad yn y broses o ddsbarthu twf yn briodol ledled y Sir. Mae'n anorfod y bydd galwadau'r farchnad yn dylanwadu ar gyflawni twf ac felly rhaid iddynt gael eu hadlewyrchu yn yr opsiwn a ffefrir er mwyn cyflawni'r twf a ragwelir.

10.4 Mae rhagor o wybodaeth ynghylch hierarchaeth aneddiadau'r Opsiwn a Ffefrir a'r rôl y bydd aneddiadau yn chwarae yn yr hierarchaeth hynny ar gael yn y Strategaeth a Ffefrir Ddrafft a'r Papur Pwnc Materion, Gweledigaeth ac Amcanion.